# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol

## TROSOLWG Y CYFARWYDDWR
2017/18



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


Rhagair ........................................ 3

Crynodeb o Berfformiad ........................................ 7

Beth y mae eraill yn ei ddweud wrthym am ein gwasanaethau? ........................................ 19

Hyrwyddo a gwella llesiant y rheiny yr ydym yn eu helpu ........................................ 33

Safonau 1 - Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau llesiant y maent am eu cael.

Safonau 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Safonau 3 - Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Safonau 4 - Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Safonau 5 - Helpu pobl i gynnal perthynas iach â phobl yn y cartref, yn y teulu ac ar lefel bersonol.

Safonau 6 - Helpu pobl i gyflawni gwell llesiant economaidd, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion ........................................ 39

a. Datblygu ein gweithlu

b. Cyllid a chynllunio ar gyfer y dyfodol

c. Arweinyddiaeth wleidyddol, llywodraethu ac atebolrwydd

Strwythur Rheoli ........................................ 46

Atodiad 1- Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2018/19 ........................................ 48

# Rhagair gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol



Fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, mae'n ofynnol i mi adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant. Dyma fy nhrydydd adroddiad fel Cyfarwyddwr Sir Gaerfyrddin a'm pumed adroddiad fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rwyf yn falch o allu adrodd fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol o ansawdd da er gwaethaf y cefndir o leihad mewn adnoddau a chynnydd mewn pwysau demograffig.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) bellach yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Thema gyson ar draws pob grŵp cleientiaid yw symud y ddarpariaeth yn gynyddol tuag at ymyrraeth gynnar ac atal. Y nod yn hyn o beth yw lleihau'r galw am ofal ac mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn dynodi ein bod yn profi llwyddiant wrth fynd ati fel hyn i newid ffocws y gwasanaethau.

Mae'r rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn llwm ar gyfer y Cyngor; mae staff yn yr isadran pobl hŷn yn arbennig wedi gweithio'n galed i gyflawni arbedion yn y gyllideb wrth leihau'r effaith ar ddefnyddwyr agored i niwed. Mae Strategaeth Pobl Hŷn y sir bellach yn dair blwydd oed ac mae ei heffaith yn cael ei theimlo oherwydd wrth i'r galw am ofal preswyl leihau, caiff mwy o bobl eu cefnogi gartref. Trwy fynd ati i gomisiynu mewn modd mwy deallus a darparu gwasanaethau adfer costau effeithiol ar gyfer pobl hŷn byddwn wedi tanwario am y drydedd flwyddyn yn olynol, gyda'r gwariant bellach yn is nag yr oedd yn 2012/13.

Mae'n amlwg na all hyn barhau am byth ac rwyf yn croesawu'r drafodaeth genedlaethol trwy adolygiad seneddol diweddar Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i ffyrdd o ddiwallu'r twf disgwyliedig mewn galw am ofal cymdeithasol o 4.1% y flwyddyn dros y 15 mlynedd nesaf. Ceir gwell dealltwriaeth o'r gyd-ddibyniaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol hyd yn oed os nad yw'r lefelau cyllid cymharol bob amser yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth hon.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi parhau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, ac mae gwelliannau pellach o safbwynt sefydlogrwydd lleoliadau ac mewn ysgolion yn dangos effaith glir y broses o newid ffocws gwaith cymdeithasol ar draws yr is-adran. Caiff y model 'Signs of Safety' ei sefydlu'n gynyddol yn y rhanbarth trwy ein Bwrdd Diogelu rhanbarthol.

Ceir cynnydd bach yn y nifer sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Ceir gostyngiad sylweddol yn nifer y plant a gaiff eu cofrestru fwy nag unwaith. Defnyddir y wybodaeth o'r gofrestr i'n helpu ni i ddeall y mater ac mae hyn yn rhoi hyder i ni fod y system yn gweithio.

Cafwyd gostyngiad siomedig yng nghyfraddau cydymffurfio ag amserlenni newydd y cynadleddau achosion amddiffyn plant yn chwarter olaf y flwyddyn, ac mae hwn yn un mater y byddwn yn ei fonitro'n agos i sicrhau ei fod yn cael ei gywiro'n fuan.

Mae'r gwasanaethau plant yn parhau i wynebu gwasgfeydd cyllidebol mawr, gyda chostau'n gysylltiedig â lleoliadau arbenigol; lletya; plant sy'n gadael gofal a phlant ag anghenion cymhleth yn cynyddu.

Yn ystod y misoedd diwethaf, yn unol â'r ddyletswydd o dan y Ddeddf newydd, rydym wedi bod yn trosglwyddo ein gwasanaeth 'Llinell Gofal' i wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Sir Gaerfyrddin. Dyma'r 'drws ffrynt' ar gyfer gwasanaethau oedolion yn Sir Gaerfyrddin; mae hyn wedi darparu pwynt cyswllt amlddisgyblaethol integredig sydd yn gyfle go iawn i drawsnewid ein model

gwasanaeth cymunedol. Bu mwy o bwyslais ar atal trwy ddarparu cyngor a chymorth amserol i rymuso pobl i'w helpu eu hunain. Rydym wedi datblygu'r Prosiect Braenaru ar gyfer gwasanaeth '111' cenedlaethol, wedi gwella'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol, wedi gwella'r modd y caiff gofal ei gydlynu gan y disgyblaethau priodol ac wedi gwella'r wybodaeth yn ymwneud â 'galw a chapasiti' er mwyn llywio'r gwaith o gomisiynu gofal a'r gweithlu sydd ei angen. Bellach ceir tystiolaeth bod hyn yn diwallu'r angen heb ymyrraeth gan wasanaethau gwaith cymdeithasol mwy drud. Nawr bod ein gwasanaethau Llinell Gofal yn ymgyfarwyddo â bod yn Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol, gall y gwasanaeth hwn ehangu a datblygu ym maes atal wrth i ni ystyried defnyddio tystiolaeth seiliedig ar Ofal Cymdeithasol ac Iechyd Sbaen i ehangu ein gwasanaethau ataliol.

Byddwn yn cynyddu ymhellach y cyflenwad o dai a gofal yn natblygiad Llynnoedd Delta, gan adeiladu ar lwyddiant y datblygiadau Gofal Ychwanegol yn Rhydaman a Chaerfyrddin. Rydym yn cadw ein darpariaeth breswyl fewnol bresennol ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gadarnhau pa fuddsoddiad cyfalaf fydd ei angen i wella'r amgylcheddau ffisegol er mwyn diwallu anghenion y dyfodol. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy nag £20 miliwn ar gyfer canolfan hamdden newydd yn Llanelli, a fydd yn hyrwyddo iechyd a llesiant yn un o'n hardaloedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf yn y sir.

Defnyddir sawl ffynhonnell o wybodaeth a gwerthusiadau gennym i ddeall ansawdd swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'u heffaith ar fywydau pobl. Mae gennym Fframwaith Rheoli Perfformiad cadarn i sicrhau ein bod yn cydbwyso'r berthynas rhwng y galw am wasanaethau, dyrannu adnoddau, effeithlonrwydd cost a boddhad defnyddwyr gwasanaeth. Mae gan y fframwaith gyfres o fesurau a gaiff eu monitro mewn cyfarfodydd misol ac y profwyd eu bod yn gwella canlyniadau.

Rydym yn parhau i ddatblygu arferion gweithio rhanbarthol ac mae'r strwythur comisiynu ar y cyd â Sir Benfro yn rhan allweddol o'n dull o gyflwyno cyllidebau cyfun ar draws y rhanbarth. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i osod y sylfeini ar gyfer cyflwyno a datblygu gwasanaethau sydd yn gosod y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau wrth wraidd y broses gynllunio.

Mae'r Adolygiad Seneddol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2018, yn nodi'r weledigaeth dros y pum mlynedd nesaf ar draws Cymru a dylai geisio cyflawni yn erbyn y pedwar nod sy'n gefnogol i'r naill a'r llall sef y system "Nod Pedwarplyg" o ddarparu iechyd a gofal di-dor i Gymru.

Er gwaethaf yr angen am wneud penderfyniadau anodd mewn hinsawdd o lymder ariannol, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi cyfleoedd i ni gydweithio mwy, bod yn fwy arloesol ac yn fwy creadigol wrth ddod o hyd i atebion gyda'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac yn y gymuned ehangach. Mae'r lefelau cynyddol o gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd yn argoeli'n dda wrth i ni godi i'r her a chyflawni'r trawsnewidiad sy'n ofynnol ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Rwyf yn falch bod Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2016/17 Swyddfa Archwilio Cymru (Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017) yn dweud:

> "Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ond mae lle i'r Cyngor wneud rhagor o welliannau o hyd.
>
> Perfformiad - Mae'r Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid, ac er gwaethaf y pwysau cynyddol ar gyllidebau, yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd blaenoriaeth ac wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009."

Rwyf yn Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR). Partneriaeth strategol yw hon sy'n cynnwys asiantaethau statudol ac anstatudol sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod pobl a dinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu diogelu'n briodol. Mae Bwrdd Diogelu CYSUR yn gweithio'n agos iawn gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS).



Mae'r adroddiad blynyddol hwn a gyhoeddwyd ddiwedd mis Gorffennaf yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gennym yn erbyn y canlyniadau a osodwyd gan CYSUR fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2017. Mae'r bwrdd wedi aeddfedu dros y flwyddyn ddiwethaf i fod yn un lle mae cydweithredu effeithiol a heriau yn rhan o'i waith bob dydd.

Gallwn ddangos sut yr ydym wedi dylanwadu ar yr agenda Genedlaethol ar addysg ddewisol yn y cartref yn ogystal â safoni'r modd y defnyddir trothwyon wrth amddiffyn plant yn lleol. Mae rheolwyr a staff bellach yn cydweithio'n dda ar draws asiantaethau a'r rhanbarth. Mae'n arbennig o braf i nodi cynnydd ein bwrdd diogelu iau. Mae'r posibilrwydd o'u gweld yn bresennol ym mhob bwrdd yn y dyfodol yn un cyffrous ac yn adlewyrchu'n dda ar y gwaith y maent wedi'i wneud a'r hyder sydd gan y bwrdd yn y bobl ifanc wych hyn.

Roedd sefyllfa gwasanaethau plant Powys yn peri pryder i ni i gyd ond bellach gwelir arwyddion o welliant ac mae'n amlwg erbyn hyn bod y canlyniadau yn gwella. Mae'r gwersi y mae Sir Gaerfyrddin a'r rhanbarth wedi eu dysgu o brofiad Powys yn cynnwys y modd y caiff gwasanaethau sensitif eu rheoli, yr angen hanfodol am gadw staff rheng flaen ac am i asiantaethau osgoi toriadau cyllideb anghymesur ac afrealistig. Rwyf yn hyderus bod y bwrdd diogelu bellach mewn sefyllfa gryfach i herio partneriaid. Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod gennym bellach system data ac archwilio i'n galluogi i'n cefnogi a'n herio ein gilydd yn llawer cynharach er mwyn atal pethau rhag mynd o chwith.

Mae'r cydweithio â CWPAS wedi bod yn gadarnhaol gan fod gennym bellach agenda sy'n gyfoethocach ac mae'r gwahanol feysydd ymarfer yn y gwasanaethau oedolion a phlant yn awr yn dechrau cyfoethogi ei gilydd, gydag ymarferwyr yn gweld y manteision o gael ymagwedd 'pob oedran' tuag at amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Bydd yna bob amser heriau wrth ddarparu gwasanaethau cymhleth o'r fath ar draws ardal ddaearyddol mor fawr, ond mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos yn glir bod cynnydd da wedi'i wneud yn y modd y mae CYSUR bellach yn effeithio ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

*Jake Morgan, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol*



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire

# 2. Crynodeb o Berfformiad

## Perfformiad y Gwasanaethau Oedolion

Cyfanswm y bobl a gefnogwyd gennym yn ystod y flwyddyn oedd 5,412, gyda chyfanswm o 14,446 o wasanaethau wedi'u comisiynu.

Mae'r graff isod yn dangos cyfradd yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o bobl 75 oed a hŷn yn Sir Gaerfyrddin.





Bu cynnydd bach mewn achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol, er bod y niferoedd yn aros yr un peth ag yr oeddent yn y blynyddoedd blaenorol.

## Adolygiadau

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mae nifer yr adolygiadau statudol sydd heb eu cwblhau yn isel ar draws yr adran, gyda data'n dangos gwelliant sylweddol mewn perfformiad o gymharu â 2016/17.


Mae'r is-adran Oedolion Hŷn wedi cwblhau cyfanswm o 3,251 o adolygiadau, gyda 465 o adolygiadau heb eu cwblhau ar ddiwedd mis Mawrth. Mae'r is-adran Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth wedi cynnal cyfanswm o 1,627 o adolygiadau, gyda 3 adolygiad heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.



## Gofal Preswyl

- Lleihad yn y nifer a dderbyniwyd i ofal preswyl hirdymor o 1066 i 1016. Mae data eleni yn dangos tuedd am i lawr yn nifer y derbyniadau o gymharu â data 2016/17, sy'n adlewyrchu ein pwyslais ar gymorth cymunedol ac atal.

Nifer y Cleientiaid mewn Lleoliadau Gofal Preswyl ar Ddiwedd y Mis





- Hyd cyfartalog arhosiad mewn gofal preswyl oedd 860 diwrnod yn 2017/18, i lawr o 989 diwrnod yn 2016/17. Mae hyn yn adlewyrchu'r oedi mewn derbyniadau preswyl a ysgogwyd gan ein strategaeth rheoli gofal ac atal. Rydym yn cynorthwyo pobl am gyfnod hwy yn eu cartrefi eu hunain.


## Gofal Cartref

- Yn 2016/17 bu gostyngiad bach iawn yn y gofal cartref a chymorth a gomisiynwyd, o 1106 i 1049. O gymharu, yn 2017/18 gwelwyd cynnydd yn y gofal cartref a gomisiynwyd, o 1034 i 1079.

Nifer y Cleientiaid sy'n Derbyn Gofal Cartref ar Ddiwedd y Mis



# Ail-alluogi




Yn dilyn ymyriad ail-alluogi, cafodd 41% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu rhyddhau'n llwyddiannus heb fod ganddynt unrhyw anghenion am wasanaeth.

Aeth 42% ymlaen i dderbyn cynllun gofal a chymorth ar gyfer gwasanaethau hirdymor; er bod gofal cartref yn cael ei ddarparu roedd lleihad yn nifer yr oriau a gomisiynwyd.


# Asesiadau

Llwyddom i gwblhau mwy o asesiadau eleni nag y gwnaethom y llynedd. Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion/gofalwyr oedd:

- Asesiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gwblhawyd ar gyfer oedolion = 5,147
- Asesiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr = 387

# Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Cymerodd tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Llinell Gofal gyfanswm o 10,565 o alwadau, gan gynorthwyo a chynghori 6,244 o bobl. Isod ceir siart o ganlyniadau cofnodedig pob galwad a gymerwyd gan staff y Llinell Gofal:




Mae 88% o'r canlyniadau ar gyfer asesiadau a gynhelir gan y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn nodi bod "Angen Asesiad Cynhwysfawr Pellach" - mae'r rheiny sy'n delio â galwadau yn y tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn sbarduno asesiad â'r tîm perthnasol sydd wedyn yn asesu anghenion yr unigolyn ymhellach. Mae staff y Llinell Gofal hefyd yn darparu Gwybodaeth, Cyngor neu Gymorth lle bo angen, ac mae hyn yn cyfrif am 9% o'r canlyniadau lle caiff ymholiadau eu cyfeirio at y lle gorau er mwyn diwallu'r anghenion a asesir. Ceir hefyd Swyddog Diogelu ar Ddyletswydd a leolir ochr yn ochr â'r tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a lle mae'r sawl sy'n delio â galwadau yn nodi unrhyw risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, caiff yr achos ei drosglwyddo at ddeilydd y swydd arbenigol hon.

## Cwynion a Chanmoliaeth

Rydym wastad yn ceisio datrys cwynion yn gynnar gan sicrhau cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r sawl sy'n gwneud y gŵyn. Pan dderbynnir cwyn newydd caiff rheolwyr y gwasanaeth wybod am hyn yn gynnar i'w helpu i nodi unrhyw faterion, ac mae hyn yn rhoi adborth defnyddiol i ni. Mae'r cwynion a'r ganmoliaeth a geir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn ein helpu i bennu'r meysydd y gallem eu gwella a'r meysydd yr ydym yn perfformio'n dda ynddynt.

Yn ystod 2017/18, nifer yr unigolion a dderbyniodd wasanaeth oedd 5,839. Cafwyd 147 o gwynion yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol oedolion, a chafwyd 106 o ganmoliaethau. O'r cwynion hyn, ymchwiliwyd i 61% ar gam datrysiad lleol 1, gyda 3% yn mynd ymlaen i ymchwiliad ffurfiol ar gam 2. Cofnodwyd bod 31% o'r cwynion a dderbyniwyd yn cael eu hailgyfeirio naill ai gan nad oedd yr achwynydd yn dymuno mynd trwy weithdrefn gwyno ffurfiol neu gan nad oedd y gŵyn yn dod o dan y gofynion statudol.

Nifer y Cwynion am Ofal Cymdeithasol Oedolion a gafwyd yn ystod 2017/18 (Cyfanswm = 147)




## Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS)


Mae'r perfformiad mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn. Mae Dyfarniad y Goruchaf Lys a ostyngodd y trothwyau ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2014 wedi cael effaith arwyddocaol ar y timau gwaith cymdeithasol gyda nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu ddengwaith yn Sir Gaerfyrddin. Ar 31 Mawrth roedd yna 395 ar y rhestr aros ar gyfer asesiad DoLS; mae hyn i lawr o 623 y flwyddyn flaenorol ac yn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol.

## Diogelu

Mae'r prosesau diogelu wedi cael eu symleiddio a chyflwynwyd systemau newydd i fonitro perfformiad yn fwy effeithiol a galluogi penderfyniadau mwy gwybodus ac amserol i gael eu gwneud. Mae canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn y cyfnod o 7 diwrnod wedi cynyddu o 75.3% yn 2016/17 i 92.54% yn 2017/18.

## Perfformiad y Gwasanaethau Plant

Rydym wedi parhau i weld gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal flwyddyn ar ôl blwyddyn (er gwaethaf y ffaith fod y niferoedd yn parhau i godi'n genedlaethol) o 271 yn ystod 2012/13 i 193 ar 31/3/18 (gostyngiad o 28.7%). Mae cyfradd ein plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed yn Sir Gaerfyrddin yn un o'r rhai isaf, sef 56 o gymharu â 95 (canlyniad Cymru gyfan 16/17). Mae ail-ffocysu gwaith y timau gwaith cymdeithasol rheng flaen fel eu bod yn gweithio mewn 'podiau', a'r pwyslais cynyddol a roddir ar waith ataliol, wedi helpu i gyflawni hyn.




| 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| 271 | 247 | 239 | 215 | 206 | 193 |


Mae'r holl dimau gofal plant bellach wedi gweithredu'r model systemig o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol, gan ymgorffori'r model ymarfer 'Signs of Safety' (SoS). Mae'r uwch-reolwyr yn parhau i archwilio asesiadau yn fisol, a rhoddir adborth i reolwyr a gweithwyr am gryfderau a meysydd i'w gwella. Cynhaliwyd gweithdai gyda gweithwyr cymdeithasol, a roddodd gyfle i archwilio ffyrdd o wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- Cwblhawyd 89.7% o asesiadau o fewn yr amserlenni statudol yn ystod 2017/18 (o gymharu ag 82.9% yn ystod 2016/17)
- Yn ystod 2016/17 cwblhawyd 99.5% o Adolygiadau Amddiffyn Plant o fewn yr amserlenni o gymharu â 95.7% yn ystod 2017/18
- Yn ystod 2016/17 cwblhawyd 93.5% o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn yr amserlenni o gymharu ag 8.9% yn 2017/18
- Yn ystod 2016/17 cwblhawyd 80.9% o Adolygiadau Gofal a Chymorth o fewn yr amserlenni o gymharu â 71.2% yn 2017/18

Mae'r uchod i gyd yn adolygiadau amlasiantaeth. Efallai y bydd angen eu canslo ar fyr rybudd oherwydd nifer o resymau e.e. presenoldeb staff annigonol yn yr asiantaeth, salwch - rhiant/plentyn/asiantaeth arall/gweithiwr gofal plant ac ati. Nid yw'r adolygiadau bellach yn fesur Llywodraeth Cymru felly ni ellir eu cymharu'n genedlaethol, ond roeddem o'r farn eu bod yn fesurau pwysig a chânt eu cadw'n lleol.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod 2016/17 yn dilyn dechrau gweithredu'r model 'Signs of Safety'. Fodd bynnag, er bod y niferoedd wedi codi eto eleni (92 ar 31 Mawrth 2018), nid yw hyn yn annisgwyl oherwydd gall niferoedd amrywio wrth i systemau gael eu sefydlu. Mae hi hefyd yn bwysig nodi, ers cyflwyno cyfarfodydd rhwydwaith teuluoedd yn gynnar a rhoi cymorth dwys lle bo angen, fod canran yr ail-gofrestriadau wedi gwella o 10.4% (10 plentyn) yn ystod 2016/17 i 0.7% (1 plentyn) yn ystod 2017/18.

### Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel ar 31 Mawrth





| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer ar y Gofrestr ar 31 Mawrth | 86 | 104 | 88 | 62 | 92 |

- Teimlai 82% o rieni eu bod wedi cael eu cynnwys yn weithredol ym mhob penderfyniad am y modd yr oedd gofal a chymorth eu plentyn (plant) yn cael ei ddarparu.
- Dywedodd 81% o blant eu bod yn fodlon â'r gofal a'r cymorth a gawsant.

*(Arolwg blynyddol o wasanaethau gofal a chymorth 2017/18)*

Mae ein ffocws ar wasanaethau ataliol wedi bod yn effeithiol ac wedi ein galluogi ni i gynorthwyo mwy o blant yn y cartref, gan atal yr angen am ymyrraeth fwy ffurfiol.


### Plant sy'n cael cymorth i barhau i fyw gyda'u teulu




| | Canlyniadau Sir Gaerfyrddin | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| 16/17 | 79.7% | 69.2% |
| 17/18 | 81.5% | |

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae sefydlogrwydd lleoliadau ein plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol, gyda gostyngiad o 6% yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal a symudodd leoliad 3 gwaith neu fwy, o 14.9% ar 31/3/16 i 8.8% ar 31/3/18.

## % y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid lleoliad 3 gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn





| | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ Sir Gaerfyrddin | 13.3% | 11.7% | 11.7% | 14.9% | 9.2% | 8.8% |
| ■ Cyfartaledd Cymru | 9.4% | 8.3% | 9.0% | 9.8% | 9.8% | |

(* above data axcludes V1 planned series of short-term breaks)

Rydym wedi parhau i berfformio'n dda wrth gadw plant sy'n derbyn gofal yn yr un ysgol. Roedd 4.0% o blant wedi newid ysgol un neu fwy o weithiau yn ystod 2017/18 (5 allan o 124 o blant). Gwnaethom berfformio'n well na chyfartaledd Cymru yn ystod 2016/17 (12.7%).

## % y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn





| | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ Sir Gaerfyrddin | 11.9% | 14.5% | 5.4% | 3.9% | 3.4% | 4.0% |
| ■ Cyfartaledd Cymru | 13.7% | 13.8% | 13.5% | 11.9% | 12.7% | |


Cyflawnodd yr holl blant, gan gynnwys y rheiny sy'n derbyn gofal pan yn 15 oed (fel ar yr 31ain Awst blaenorol) gymhwyster allanol cymeradwy.

Mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ers nifer o flynyddoedd. Yn 2017 gwnaeth llai nag 20% o ddisgyblion blwyddyn 11 a oedd yn derbyn gofal yng Nghymru adael addysg statudol gyda'r lefel 2 cynhwysol (Estyn 2017) o gymharu â 54.6% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru.

Fodd bynnag, yn Sir Gaerfyrddin cyrhaeddodd 31.5% o ddisgyblion sy'n derbyn gofal y lefel 2 cynhwysol. Er bod angen i ni wella ar hyn yn Sir Gaerfyrddin pryd y cyflawnodd 57.8% o'r holl ddisgyblion lefel 2, rydym yn falch ein bod wedi rhagori ar gyfartaledd Cymru gyfan yn ogystal â'r cyfartaledd o 20% ar draws consortia ERW.





Dros y blynyddoedd mae'r awdurdod lleol wedi archwilio sawl ffordd o gefnogi a gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Ar hyn o bryd cynigir ystod o adnoddau addysgol i'r disgyblion, tiwtoriaeth ychwanegol, gweithgareddau cyfoethogi a mentora. Yn ystod y 3-4 blynedd diwethaf mae Sir Gaerfyrddin wedi defnyddio ei grant datblygu disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i gefnogi a hyfforddi staff ysgolion. Ymddengys fod hyn wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol o gymharu â mentrau eraill. Mae canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 (TGAU) hefyd ar gynnydd.





Ar hyn o bryd mae gan 73 o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin ddisgyblion sy'n derbyn gofal. Mae staff ym mhob un o'r 73 o ysgolion wedi cael hyfforddiant mewn deall effaith trawma, camdriniaeth ac esgeulustod ar ddysgu. Mae 54 o ysgolion wedi cael hyfforddiant ar gyfer yr ysgol gyfan. Mae cyfanswm o 1,689 o staff ysgolion wedi cael ystod o hyfforddiant cysylltiedig mewn cymhwyso egwyddorion ymwybyddiaeth o ymlyniad yn yr ystafell ddosbarth gan gynnwys hyfforddiant emosiynol, chwarae perthynol, meddwlgarwch a therapi lego.







Yn ychwanegol at dderbyn hyfforddiant mae 289 o staff wedi derbyn cefnogaeth 1:1 yn yr ystafell ddosbarth i weithredu ymyriadau positif ar gyfer plant sy'n dioddef ymddygiadau sy'n herio. Mae'r lefel hon o gymorth dwys wedi cael derbyniad gwresog gan ysgolion, ac ymddengys fod y gwaith cychwynnol o fonitro data yn dangos ei bod yn cael effaith sylweddol ar wella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal.

Yng Nghyfnod Allweddol tri, cyflawnodd 88.4% o ddisgyblion yn Sir Gaerfyrddin y dangosyddion pynciau craidd o gymharu ag 87.4% ledled Cymru. Cyfartaledd Cymru gyfan oedd bod 46% o blant sy'n derbyn gofal wedi cyflawni'r dangosyddion pynciau craidd yn 2016/17 ac yn Sir Gaerfyrddin, roedd 64% o'n plant sy'n derbyn gofal wedi cyrraedd hyn, gan ragori o dipyn ar gyfartaledd Cymru gyfan.




Ar draws Cymru, nid oedd 45% o'r plant sy'n derbyn gofal yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar eu pen-blwydd yn 19 oed (Estyn 2017). Dim ond 1 disgybl sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin, ym mlwyddyn 11, nad oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mis Medi 2017.




Darparwyd cymorth a hyfforddiant dwys i Ganolfan Dysgu ac Addysgu Sir Gaerfyrddin lle mae 38% o'r disgyblion yn derbyn gofal. Mae'r ymyriad hwn wedi lleihau nifer y disgyblion sy'n gwrthod gwersi a nifer yr achosion lle mae angen gwaharddiad.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi parhau i ddarparu cefnogaeth barhaus i ysgolion ar faterion presenoldeb. Maent yn parhau i gynnal rhyngwyneb llwyddiannus gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu a defnyddio modelau ymgysylltu â'r teulu i gynnwys teuluoedd mewn addysg a dysgu o'r newydd. Mae'r tîm Rhianta Corfforaethol, Cam Nesaf, yn darparu ystod gynyddol o hyfforddiant a chymorth i bobl sy'n gadael gofal er mwyn helpu i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Gyda golwg ar ein pobl sy'n gadael gofal - Yn ystod 2017/18:

- Mae 72.2% o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2016/17 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 13 allan o 18 o bobl ifanc). (SCC/34a)
- Mae 64.3% o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2015/16 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 10 allan o 12 o bobl ifanc). (SCC/34b)
  - Mae 38 o'r rheiny a adawodd ofal wedi cofrestru ar gyfer Addysg Bellach (coleg neu 6ed Dosbarth)
  - Cafodd 14 waith parhaol
  - Roedd 17 yn mynychu hyfforddiant amser llawn
  - Cofrestrodd 6 ar gyrsiau prifysgol israddedig
  - Roedd 5 yn mynychu lleoliadau gwaith gyda thâl
  - Llwyddodd 10 i basio eu prawf theori neu'u prawf gyrru
  - Cyflawnodd 28 gymwysterau cyflogadwyedd
  - Roedd 35 o bobl ifanc yn byw'n annibynnol




Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i berfformio'n dda, er gwaethaf yr heriau yn sgil maint ac amrywiaeth y rhanbarth. Eleni gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y plant y ceir cynllun i'w mabwysiadu, a hynny'n rhanbarthol ac yn genedlaethol. Felly, y flaenoriaeth ar gyfer 2017/18 yw recriwtio mwy o fabwysiadwyr fel nad yw'r plant yn profi oedi, a sicrhau bod modd eu lleoli o fewn y rhanbarth lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Yn ogystal â chynyddu nifer y mabwysiadwyr, mae gweithredu'r Fframwaith Taith Bywyd a'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu yn flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth wrth edrych tua'r dyfodol.

Yn ystod 2017/18:

- Gwnaed 46 o benderfyniadau y 'dylid rhoi plant' i'w mabwysiadu
- Cyflwynwyd 43 o orchmynion lleoli
- Cafodd 35 o blant eu 'rhoi i'w mabwysiadu'
- Cyflwynwyd 22 o orchmynion mabwysiadu
- Cafodd 38 o blant eu rhoi gyda mabwysiadwyr

Mae'r flwyddyn wedi bod yn un heriol, gyda chynnydd yn y galw am wasanaethau mewn cyfnod o gyni cyllidol. Unwaith eto eleni gwelsom gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau; mae hyn o ganlyniad i godi mwy o ymwybyddiaeth ar draws asiantaethau gan gynnwys hyfforddiant mewn ysgolion, ynghyd â'r cyhoeddusrwydd yn dilyn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.




| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau | 4,590 | 4,912 | 4,756 | 4,259 | 5,785 | 6,418 | 7,170 |
| Atgyfeiriadau | 1,063 | 1,090 | 1,144 | 1,572 | 1,354 | 1,683 | 1,747 |

Ein nod yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd. Mae 1832 o blant (0-3 oed) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn gallu elwa ar y rhaglen Dechrau'n Deg ar draws 17 ardal ddaearyddol yn y sir. Mae'r gwaith o ehangu i Rydaman bellach wedi'i gwblhau. Mae'r buddsoddiadau cyfalaf a dderbyniwyd wedi golygu bod modd creu swyddfeydd Dechrau'n Deg newydd yn Rhydaman gyda Chanolfan Gyswllt gyfunol ar gyfer teuluoedd, ynghyd â chyfleuster gofal plant newydd yng Nghanolfan Deulu Pen Rhos (yn Ysgol Penrhos sydd newydd agor).


- Cafodd 9771 o unigolion gymorth gan Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2017/18, sydd yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol (8,626). Cafodd 4860 o unigolion newydd gymorth.
- Cynhaliwyd 1224 o Fframweithiau Asesu Teuluoedd ar y Cyd gan asiantaethau sengl, ac aeth 119 ohonynt ymlaen i'r Tîm o Amgylch y Teulu.
- Bu Gweithwyr Allweddol y prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio gyda 184 o Gynlluniau Tîm o Amgylch y Teulu.
- Caewyd 873 Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd gyda symudiad ymlaen o 703 (80%) ar yr offeryn pellter a deithiwyd.

- Cafodd 60 o achosion eu camu i fyny i'r gwasanaethau plant, a chafodd 127 o achosion eu camu i lawr o'r Gwasanaethau Plant i Teuluoedd yn Gyntaf.
- Roedd Gweithwyr Allweddol o brosiect a gomisiynwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynlluniau Tîm o Amgylch y Teulu.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae sefydlogrwydd lleoliadau ein plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol, gyda gostyngiad o 6% yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal a symudodd leoliad 3 gwaith neu fwy, o 14.9% ar 31/3/16 i 8.8% ar 31/3/18.

## Perfformiad Iechyd a Llesiant

Yn dilyn buddsoddi gwerth miliwn o bunnoedd i wella darpariaeth Iechyd a Ffitrwydd y sir, gan greu mwy o le a chyflwyno cyfarpar ffitrwydd newydd o'r radd flaenaf, mae'r amgylcheddau a'r ymarferion ar eu newydd wedd wedi cael derbyniad da iawn gan gwsmeriaid newydd a chwsmeriaid presennol. Trwy alluogi cysylltedd â chyfryngau cymdeithasol ac apiau ffitrwydd, gall pobl bersonoli lleoliadau a dewis o blith ystod enfawr o sianeli/ffrydiau teledu/radio, sy'n caniatáu iddynt ymarfer yn 'rhithwir' mewn amrywiaeth o leoliadau deniadol ar draws y byd a chymaint mwy. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 18% yn nifer yr aelodau (6206 i 7346) a chynnydd o 23% mewn incwm (o £978k i £1.2m).




## Y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

Caiff y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ei ariannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i redeg mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, gyda'r nod o leihau nifer y bobl sydd mewn perygl o ddatblygu Clefydau Coronaidd y Galon, cynyddu gweithgarwch corfforol, a gwella iechyd meddwl a llesiant.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd arloesol ac effeithiol o ymdrin ag achosion a gaiff eu hatgyfeirio gan Feddygon Teulu at ymyrraeth gweithgarwch corfforol (yn seiliedig ar swyddogaeth yn hytrach na'u cyflwr), gan wella sgiliau staff ffitrwydd hamdden prif ffrwd er mwyn cadw'r atgyfeiriadau hyn yn Weithredol trwy gydol hyd oes y cynllun.

Cawsom 1510 o atgyfeiriadau yn 2017/18, cymerodd 53.8% o'r rhain ran yn y cynllun a chwblhaodd 45.6% ohonynt y rhaglen 16 wythnos o hyd.

Rydym hefyd wedi ehangu'r llwybr i ddarparu ar gyfer darpar famau a rhoi pwyslais ar y rheiny sydd mewn perygl mawr o gael codwm a buddsoddi ynddynt. O ganlyniad bu cynnydd o 104% yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â chodymau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Amcangyfrifir bod pob codwm a gaiff ei atal yn arbed £35k yn y sector iechyd, sydd felly'n arwain at arbedion o hyd at £2.4 miliwn.

Dyfyniadau gan bobl sydd wedi cwblhau'r rhaglen Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff:

> "Mae'r cynllun wedi bod yn wych. Mae wedi trawsnewid fy mywyd yn llwyr, nid yn unig yn gorfforol ond yn emosiynol hefyd. Mae fy mhwysedd gwaed yn is ac felly hefyd fy ngholesterol. Rwyf wedi colli dwy stôn, ac allai ddim credu fy mod yn 59 oed pan wnes i ddarganfod gwir fanteision ymarfer corff. Diolch i'r holl hyfforddwyr am eu hamynedd a'u cefnogaeth parhaus."

# 3. Beth y mae eraill yn ei ddweud wrthym am ein gwasanaethau?

## Arolygon ac Ymgynghoriadau

Yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gasglu gwybodaeth ansoddol am bobl sy'n defnyddio eu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol drwy holiadur blynyddol. Cynhaliwyd yr arolwg Gofal Oedolion rhwng mis Medi a mis Hydref 2017. Roedd gan bawb a gymerodd ran yn yr arolwg gynllun cymorth neu roeddent yn derbyn gwasanaethau gan yr awdurdod lleol. Dosbarthwyd cyfanswm o 1023 o holiaduron.



**Derbyniwyd 537 o ymatebion i'r arolwg. Mae hyn yn gyfradd ymateb uchel o 53%. Cawsom 145 o ymatebion gan bobl oedd yn byw mewn cartref gofal.**

- Mae **89%** yn teimlo eu bod yn byw mewn cartref sy'n cynnal eu llesiant yn y modd gorau.
- Atebodd **55%** 'Ydw' i'r cwestiwn a allent wneud y pethau a oedd yn bwysig iddynt.
- Teimlai **58%** eu bod yn rhan o gymuned.
- Roedd **88%** yn hapus â'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn gan deulu, ffrindiau a chymdogion.
- Dywedodd **85%** eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwympo y tu mewn a'r tu allan i'w cartref.
- Dywedodd **78%** o bobl eu bod yn meddwl eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan fydd angen hyn arnynt.
- Roedd **81%** o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Roedd **91%** yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- Teimlai **93%** o bobl eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Roedd **87%** o bobl yn hapus â'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn.
- Gwnaeth **78%** eu penderfyniad eu hunain i fyw mewn Cartref Gofal.
- Teimlai **99%** eu bod yn cael cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion.

**Dyma rai sylwadau a adroddwyd o'r arolwg:**

"Nid fy newis cyntaf i oedd byw mewn cartref preswyl, ond roeddwn yn methu â gofalu am fy anghenion a des i sylweddoli a derbyn bod rhaid i mi fyw mewn cartref gofal lle rwyf yn awr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gofal".

"Rwyf yn fodlon iawn gyda'r gofal a'r cymorth yr wyf yn ei dderbyn ar hyn o bryd"

Mae'r staff bob amser yn fy nhrin ag urddas a pharch.

"Mae fy ngofalwyr yn wych ac yn gefnogol iawn. Maent yn haeddu cael eu crybwyll a'u canmol am yr hyn maen nhw'n ei wneud. Maen nhw'n rhoi'r hyder i mi i wella ac i fod mor normal ag y gallaf."

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda 1,337 o rieni/gofalwyr/teuluoedd trwy gyfrwng arolwg holiadur fel rhan o'n hasesiad o ddigonolrwydd gofal plant (2017/22).

**Dywedodd y rhieni a'r gofalwyr y canlynol wrthym:**

- Roedd **87%** yn fodlon ag ansawdd gofal plant.
- Dywedodd **79%** o'r rhieni oedd yn gweithio wrthym fod cost yn rhwystr sylweddol, gan ddweud eu bod o'r farn bod gofal plant yn rhy ddrud, a'u bod am iddo fod yn fwy fforddiadwy yn ystod y tymor ac adeg gwyliau ysgol.
- Roedd **67%** o rieni/gofalwyr yn defnyddio gofal plant cofrestredig ar gyfer rhai neu bob un o'u plant.
- Roedd **27.8%** o rieni/gofalwyr nad oeddent yn defnyddio gofal plant, gyda chost yn ffactor bwysig yn hyn.
- Roedd **67%** eisiau mwy o ofal plant i fod ar gael yn ystod y penwythnos ac ar ôl 6 p.m.
- Nid oedd **52.7%** o'r rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn ein Harolwg wedi cael dim cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant.
- Roeddent yn fwy bodlon â'u trefniadau gofal plant yn ystod y tymor na'u trefniadau gofal plant yn ystod y gwyliau.
- Dywedodd rhieni ei bod yn anodd dod o hyd i ofal fforddiadwy yn ystod y gwyliau ar gyfer y grŵp oedran 11+ yn Llanelli.



**Gwelir isod yr hyn y mae plant Sir Gaerfyrddin wedi'i ddweud wrthym am eu profiadau o chwarae allan fel rhan o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016:**

**Cymerodd 1,437 o unigolion ran yn yr ymgynghoriad**

- Mae **45%** o'r plant yn teimlo y gallant wneud yr hyn maent yn ei hoffi orau wrth chwarae allan, gyda dim ond **12%** yn teimlo nad oedd ganddynt fawr ddim i'w wneud.
- Yr hyn y maent yn ei fwynhau fwyaf yw sgwrsio a bod gyda'u ffrindiau yn rhedeg ac yn mynd ar ôl ei gilydd, chwarae gemau, gemau pêl, dringo, bod gyda'u teuluoedd.
- Yn bennaf byddant yn chwarae yn y parc, mewn llecyn gwyrdd neu gae lleol, ar y traeth/ar lan y môr, ac ar bwys yr afon.
- Mae cael cyfleoedd i chwarae yn gwneud iddynt deimlo - yn hapus, yn llawn cyffro ac yn egnïol.
- Y rhwystrau i chwarae yw - tywyllwch, tywydd gwael, gwaith cartref.
- Mae'r plant yn awgrymu - bod y ffyrdd yn cael eu gwneud yn fwy diogel, bod baw ci yn cael ei glirio, bod angen i bobl roi'r gorau i ysmygu yn ein man chwarae.



**Cynhaliwyd arolwg gofal a chymorth plant Sir Gaerfyrddin rhwng Medi 2017 a Mawrth 2018 ac roedd yn cynnwys plant rhwng 7 a 17 oed sydd â chynllun gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr ifanc, ynghyd â holiadur ar wahân i rieni. Dosbarthwyd 438 o holiaduron i blant, ynghyd â 651 arall i rieni. Yn anffodus, roedd yn siomedig, ond nid yn annisgwyl, bod y gyfradd ymateb yn isel sef 20.1%, (88 o blant), a 13.5% (88 o rieni), er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed gan weithwyr i geisio ymgysylltu â theuluoedd.**

- Dywedodd **84%** o blant eu bod yn byw mewn cartref lle maent yn hapus.
- Mae **76%** yn hapus gyda'r bobl y maent yn byw gyda nhw.
- Atebodd **61%** o blant 'ydw' i'r cwestiwn a ydynt yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.
- Dywedodd **79%** eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned.
- Roedd **87%** yn hapus gyda'u teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion.
- Dywedodd **86%** o blant eu bod yn teimlo'n ddiogel (atebodd 3 phlentyn nad oeddent yn teimlo'n ddiogel - teimlai dau ohonynt fod hyn oherwydd yr ardal lle maent yn byw, a dywedodd y llall ei fod 'weithiau'n mynd i drwbl y tu allan'.
- Dywedodd **81%** o blant eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a'u cymorth.
- Teimlai **74%** o blant eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd ei angen arnynt (dywedodd **17%** eu bod wedi cael hyn weithiau).
- Teimlai **80%** fod eu barn am eu gofal a'u cymorth wedi cael gwrandawiad (dywedodd 14% eu bod wedi cael gwrandawiad weithiau).
- Dywedodd **94%** o blant eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith (ni ddywedodd unrhyw blant nad oeddent yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith).
- Teimlai **82%** eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

- Mae **81%** yn fodlon â'r gofal a'r cymorth a gawsant (roedd 16% yn fodlon weithiau).
- Dywedodd **50%** o bobl ifanc 16 / 17 oed 'ydw' i'r cwestiwn a ofynai a oeddent wedi cael y cyngor, yr help a'r cymorth a fydd yn eu paratoi at fywyd fel oedolion. Cyfradd isel iawn o ddim ond 21 o bobl ifanc a atebodd y cwestiwn hwn (atebodd 10 'ydw', atebodd 6 'weithiau'; dywedodd 4 'nac ydw'; ac nid oedd y llall yn gwybod).
- Teimlai **82%** o rieni eu bod wedi cael eu cynnwys yn weithredol ym mhob penderfyniad am y modd yr oedd gofal a chymorth eu plentyn/plant yn cael ei ddarparu. Roedd nifer uchel yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn yr holl benderfyniadau (69 allan o 88 o ymatebwyr), atebodd 15 arall 'weithiau' a dywedodd pedwar rhiant nad oeddent yn credu eu bod wedi cael eu cynnwys yn weithredol ym mhob penderfyniad.



**Dyma rai sylwadau ychwanegol a gafwyd:**

"Rwyf innau a'm gŵr yn cael ein cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau'n ymwneud â'r plant"

“Wedi cyrraedd amser pwysig ym mywyd fy mhlentyn - bydd angen gwybodaeth a chymorth ychwanegol arnaf ar yr adeg hon”

“Rwyf yn hapus â'r gwasanaethau a gefais”

"Rwyf yn cael yr holl gyngor sydd ei angen arnaf"

"Rwyf yn byw mewn cartref, rwyf yn hapus gan fy mod yn byw gyda phobl hyfryd"

"Ydw, rwyf yn gwybod â phwy y gallaf siarad - gallaf siarad â'm gweithiwr cymdeithasol a'r athro"

"Maen nhw bob amser yn garedig ac yn barod i helpu"

## Dadansoddiad o'r Canlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 4 i 5 Blynedd ar ôl Gorchymyn Gofal Terfynol

Cymerodd y gwasanaethau plant ran mewn adolygiad annibynnol ar y canlyniadau i blant 4-5 mlynedd ar ôl i Sir Gaerfyrddin sicrhau gorchymyn gofal.

### Y prif gasgliadau



- Yn gyffredinol, **canlyniadau da** yn Sir Gaerfyrddin.
- Pan oedd yna amhariadau yn digwydd i leoliadau yn Sir Gaerfyrddin, roeddem yn fwy rhagweithiol o lawer o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill. O ganlyniad, roedd y **canlyniad terfynol yn gadarnhaol** hyd yn oed pan symudwyd y plentyn nifer o weithiau.
- Mabwysiadwyd **60%** o'n plant a ddaeth i ofal ar yr adeg honno. Mae hyn o gymharu â'r **32%** a fabwysiadwyd ar draws Cymru. Mae hyn eto yn nifer uchel ac yn nodwedd gadarnhaol.
- Roedd gennym rai lleoliadau maethu da iawn a oedd yn gofalu am y plant nes eu bod yn cyrraedd eu harddegau.
- Roedd yna hefyd enghreifftiau da o blant yn elwa ar **gymorth therapiwtig**.
- Gwaith arbennig gan y Gweithiwr Cymdeithasol therapiwtig a ddisgrifir fel rôl dda iawn.
- Tystiolaeth o waith **Cofnodi Profiadau Bywyd** da iawn a rhai canlyniadau rhagorol i'r plant.
- Ar ddiwedd y pum mlynedd a astudiwyd fel rhan o'r ymchwil, roedd **16** allan o **17** o'n plant yn **sefydlog ac yn hapus ac maent wedi meithrin perthnasoedd da**. Roedd pob un ohonynt mewn addysg neu hyfforddiant; 13 yn cyflawni'n dda, 3 yn cyflawni'n arbennig o dda a dim ond un plentyn oedd yn cael anawsterau.
- Roedd plant yn Sir Gaerfyrddin yn cael **canlyniadau gwell** o lawer oherwydd y gwaith cynllunio a'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn ar yr adeg pan fethodd y lleoliad ac ar ôl hynny wrth ymgartrefu mewn lleoliad newydd.
- Ceir tystiolaeth glir o **berfformiad da iawn yn Sir Gaerfyrddin**. Roedd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) eisoes wedi cynnig gweithdai i Awdurdodau eraill er mwyn canolbwyntio ar eu diffygion, ond roedd o'r farn nad oedd angen un yn Sir Gaerfyrddin.

# Gwobrau a Chydnabyddiaeth

## Dathlu Llwyddiant Plant mewn Gofal

Mae plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin a'u gofalwyr wedi bod yn destun digwyddiad i ddathlu eu cyflawniadau addysgol a'u gwaith diflino. Bu'r Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams yn bresennol mewn digwyddiad dathlu arbennig yn Ffos Las, ynghyd â'r Comisiynydd Plant Sally Holland, arweinwyr y Cyngor, gofalwyr ac athrawon ysgol i dalu teyrnged i blant sy'n derbyn gofal y sir, sy'n dod o gefndir o argyfwng neu chwalfa yn y teulu. Cafodd y plant a'r bobl ifanc wobrau am bresenoldeb da yn yr ysgol a chyflawniad addysgol yn ogystal â'u cyfraniad at chwaraeon, cerddoriaeth a gwirfoddoli.



Meddai Kirsty Williams:

> "Mae plant sy'n dod mewn i'r system ofal yn aml yn dod o amgylchiadau teuluol anodd iawn. Ni allwn newid eu profiadau personol, ond mae'n rhaid i ni leihau'r effaith a'u cefnogi nhw wrth iddynt dyfu'n oedolion annibynnol, bodlon a balch. Mae ymchwil yn dangos bod dim ond bod yn y system ofal ynddo'i hun yn lleihau'r disgwyliadau i'r bobl ifanc hyn. Mae'r diwylliant hwn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i lwyddo ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys addysg. Mae'r seremoni wobrwyo yn profi nad oes rhaid i hyn fod yn wir ac yn dangos beth mae ein dysgwyr sy'n derbyn gofal yn gallu ei wneud gyda'r gefnogaeth gywir."

Cyn y cinio dathlu mwynhaodd y plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd ystod o weithgareddau a ddarparwyd gan y Cyngor a'r sefydliadau partner gan gynnwys Coleg Sir Gâr a'r gwasanaeth tân.

> "Roedd yn gyfle i ddiolch i rieni maeth, staff y gwasanaeth a'r ysgolion am eu gwaith gwerthfawr a'u cefnogaeth."

Cyn y cinio dathlu mwynhaodd y plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd ystod o weithgareddau a ddarparwyd gan y Cyngor a'r sefydliadau partner gan gynnwys Coleg Sir Gâr a'r gwasanaeth tân.

Cafodd y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth 'Llinell Gofal' ei gydnabod a'i ganmol yng Ngwobrau Safonau'r Gymraeg am weithredu'r 'Cynnig Gweithredol'. Cyrhaeddodd y gwasanaeth Llinell Gofal hefyd rownd derfynol Gwobrau Sector Cyhoeddus The Guardian am ei gyflawniad yn y categori Dysgu a Datblygu.

> "Wedi'i ddisgrifio'n 'chwyldroadol' gan archwiliad annibynnol, mae Dewis Sir Gâr Cyngor Sir Caerfyrddin - sy'n darparu pwynt mynediad sengl ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â gofal cymdeithasol - wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn byr o dro. Dywed rheolwr Cyngor a Chymorth y Cyngor y gall galwyr bellach gael mynediad i wasanaeth 24/7 wedi'i deilwra, diolch i'r strategaeth i hyfforddi staff trin galwadau presennol y Llinell Gofal er mwyn ehangu eu harbenigedd a'u galluogi i weithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod staff rheng flaen yn gallu prosesu ymholiadau'n well, gan gyfeirio'r cleientiaid mwyaf agored i niwed at y man lle gallant gael cymorth, gan hefyd greu capasiti o fewn yr adran. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu hysgogi i raddau mwy a'u bod yn cael gwell cefnogaeth."

Derbyniodd gweithiwr cymdeithasol o'r tîm diogelu wobr gan Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Prydain am ei gyfraniad i waith cymdeithasol.

Mae'r Comisiwn Bevan wedi cydnabod dwy fenter yn Sir Gaerfyrddin fel 'Esiamplau'; sef 'Bywydau Bodlon' a Rhagnodi Cymdeithasol.

## Adborth ac Adolygiadau

Mae AGGCC wedi cynnal adolygiad thematig o ddiogelu ac wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ar y systemau a'r strwythurau newydd sydd ar waith i wella perfformiad ac yn benodol yr amserlenni.

Defnyddiwyd Cyngor Sir Caerfyrddin fel enghraifft o sut i ddefnyddio bwrdd rhanbarthol yn effeithiol yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol 2016-17 (Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017).

> "Mae Cyfarwyddwr Cymunedau Cyngor Sir Gâr wedi bod yn cadeirio'r bwrdd plant ers sawl blwyddyn ac mae wedi darparu arweinyddiaeth strategol gyson ar gyfer y bwrdd. Mae'r sir wedi gweithredu Arwyddion Diogelwch, sef model ar gyfer cynnal cynadleddau achos amddiffyn plant, a chaiff y gostyngiad yn nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ei briodoli i'r ffaith bod y model hwn wedi'i weithredu.
>
> Mae'r sir wedi ymgymryd â gwaith penodol ynghylch plant coll, gyda'r heddlu, ac ynghylch plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref; mae wedi creu grŵp i rannu arfer da ac adnoddau ynghylch Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; ac ar ôl cynllun peilot llwyddiannus lle'r oedd Swyddog Diogelu penodedig yn rhan o'r tîm "drws ffrynt", mae'r rôl hon wedi troi'n drefniant parhaol."

Mae'r swyddogaeth Graffu wedi nodi cynnydd yn ystod 2017 mewn perthynas â thrawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl, cefnogi gofalwyr a chynnydd mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS).

Cynhaliwyd adolygiad thematig mewn perthynas â gofalwyr ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Ers yr adolygiad hwnnw cyflwynwyd nifer o fentrau mewn perthynas â gofalwyr:

- Nodi eiriolwyr dros ofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol
- Sefydlu swydd gwybodaeth ac asesu'r gofalwr
- Cydweithio â'r Rhwydwaith Gofalwyr Iechyd Meddwl i ddatblygu taflen a phrotocol rhannu gwybodaeth

Fel rhan o'r gwaith o Drawsnewid Iechyd Meddwl a arweinir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae'r swyddogion wedi cyfrannu at nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn ymgynghori ynghylch model gwasanaeth newydd. Bu'r adborth a gafwyd gan y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr yn elfen hanfodol o'r rhaglen hon, sydd bellach wedi symud i'r cam gweithredu.

Mae'r swyddogion yn mynd i fforymau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rheolaidd er mwyn canfod barn y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gyda'r nod o wella gwasanaethau'n barhaus. Er enghraifft, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda rhieni sy'n ofalwyr, Mencap a Pobl yn Gyntaf er mwyn canfod eu barn ar ailfodelu'r gwasanaethau dydd.

Mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wedi cyfrannu at adolygiad TIC o gomisiynu preswyl ac wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod y broses yn dod yn fwy person-ganolog.

Mae'r Grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn adnodd ardderchog i lawer o ofalwyr sydd, yn draddodiadol, wedi'i chael hi'n anodd cael seibiant o ofalu. Yn benodol mae Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc, grŵp nad yw'n cael ei gydnabod yn ddigonol o bell ffordd, wedi elwa ar amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi dangos canlyniadau gwych.

**Dyma rai sylwadau, er enghraifft:**

"Roedd hyfryd i weld pawb yn hapus"

"Roedd yn drip hyfryd dros ben, llawn hwyl"

"Roedd yn wych i gael treulio amser gyda'n gilydd"

"Roedd yn ymlaciol dros ben"

"Mae wedi bod yn gyfle gwych"

"Diolch!"

"Hoffwn fynd ar drip fel hwn eto"

Roedd Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin yn bartner gweithredol wrth gyfrannu at y Rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl, a arweiniodd at fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn derbyn gwobr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol am yr ymdrech gydweithredol.

Mae Adolygiad TIC o'r Tîm Cynhwysiant Cymunedol wedi symud i'r cam gweithredu. Sefydlwyd strwythur rheoli prosiectau er mwyn gweithredu argymhellion yr adolygiad.

Comisiynom adolygiad TIC o leoliadau preswyl o'r asesiad i'r lleoliad. Cafodd yr adolygiad hwn, sydd wedi tynnu sylw at feysydd sylweddol lle mae angen gwelliant, groeso brwd gan y staff. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio â'r sector iechyd i ail-ddylunio'r broses.

Tynnwyd sylw at Gyngor Sir Caerfyrddin fel enghraifft gadarnhaol mewn dau adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn yr Adroddiad Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau (Cyhoeddwyd ym mis Mai 2017):

> "Mae gan y Cyngor brosesau datblygedig ar waith er mwyn ceisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr a dinasyddion, ynglŷn â newidiadau arfaethedig i wasanaethau - yn sgil y penderfyniad i ailstrwythuro arfer gwaith cymdeithasol a oedd yn anelu at sicrhau bod y teulu wrth wraidd y gwasanaeth, mae gweithgarwch ymgysylltu parhaus, trwyadl yn rhan elfennol o'r broses o newid gwasanaethau, sy'n darparu gwybodaeth a barn hanfodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd er mwyn helpu i lywio fformatau'r gwasanaethau sy'n newid yn uniongyrchol yn y dyfodol.
>
> Ymwelodd y Tîm Rhianta Corfforaethol â 'phodiau' Gwaith Cymdeithasol er mwyn siarad yn uniongyrchol â gweithwyr cymdeithasol yn y maes er mwyn canfod pa effaith roedd y rhaglen sylweddol i ailstrwythuro'r gwasanaeth gwaith cymdeithasol wedi'i chael ar gleientiaid a'u teuluoedd.
>
> Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith newidiadau i wasanaethau - Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig a hygyrch ar waith ar gyfer monitro gweithgarwch rheoli perfformiad, yn bennaf drwy ei system Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS). Mae system PIMS yn ei gwneud yn bosibl i wybodaeth monitro perfformiad, a ddefnyddir i olrhain ac asesu newidiadau i wasanaethau a gwerthuso eu heffaith, gael ei hechdynnu a'i chofnodi."

Yn yr adroddiad o'r enw Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw - Digartrefedd

*(Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018):*

> Mae dull tîm Opsiynau Tai a Chynghori'r awdurdod o ymdrin â gweithgarwch sy'n dod i mewn yn enghraifft dda o sut i ddelio â'r galw ar wasanaeth - Yn 2013, gwybodaeth gyfyngedig oedd gan y Cyngor ar foddhad cwsmeriaid ac ymdriniwyd â hyn drwy ddechrau gofyn pum cwestiwn gwerthusol i bawb a oedd yn cysylltu â'r gwasanaeth. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ansawdd y cyngor, datrys problemau a dulliau cyfathrebu. Gwnaeth y Cyngor hefyd ddadansoddi nifer y galwadau roedd yn ymdrin â nhw, a chanfuwyd mai dim ond 40% o'r galwadau oedd yn cael eu hateb ar y pwynt cyswllt cyntaf.
>
> Gosododd y Cyngor sgrin yn dangos y galw a oedd yn dod i mewn ac er mwyn galluogi aelodau'r tîm i reoli'r galw yn well, gan ddefnyddio data i ganfod yr aelod o staff a oedd yn cyfateb orau i'r galwr. Cyfrannodd y dull newydd at gynyddu cyfran y galwadau opsiynau tai yr ymdriniwyd â nhw ar y pwynt cyswllt cyntaf i 96%.

> Mae'r Cyngor yn ymdrechu i ddatrys problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf lle y bo'n bosibl - wrth 'wneud i bob cyswllt gyfrif', mae'r tîm craidd sy'n delio â galwadau sy'n dod i mewn yn cynnwys swyddogion o gefndiroedd amrywiol a all ddarparu atebion i broblemau pobl. O ganlyniad, gwelir bod hyn hefyd yn rhoi mwy o foddhad i aelodau'r tîm sy'n helpu ac yn rhoi cyngor mewn gwirionedd ar opsiynau tai i bobl, yn hytrach na chymryd a dargyfeirio galwadau i adrannau mwy addas.

Bellach caiff pobl sy'n gadael gofal yn Sir Gaerfyrddin eu heithrio o dalu'r dreth Gyngor tan eu bod yn 25 oed. Cytunodd y Cyngor â'r cynnig. Ar hyn o bryd, bydd hyn yn effeithio ar dros 80 o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal yr Awdurdod Lleol yn Sir Gaerfyrddin.

Dywedodd y Cynghorydd David Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau:

"Mae'r Cyngor yn ceisio cefnogi pobl ifanc sydd wedi gadael ei ofal er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol fel oedolion.

Mae darparu gostyngiadau yn ôl disgresiwn o ran y dreth gyngor yn cael gwared ar unrhyw atebolrwydd o ran y dreth gyngor gan bobl sy'n gadael gofal ac felly'n sicrhau nad yw pobl sy'n gadael gofal yn wynebu dyledion posibl o ran y dreth gyngor."



Wrth siarad yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol, dywedodd y Cynghorydd Glynog Davies:

"Fel Cynghorwyr, rydym yn rhieni corfforaethol. Dylai'r gofal hwnnw barhau ar ôl i'r bobl ifanc adael ein gofal.

Gall mynd allan i'r byd go iawn fod yn anodd ac mae nifer o bobl sy'n gadael gofal yn cael anhawster ymdopi felly bydd yr eithriad hwn o gymorth mawr iddyn nhw.

Yn aml, mae ein plant ein hunain yn dychwelyd adref er mwyn cael cymorth a chyngor ar adegau. Dylem ddangos yr un tosturi tuag at bobl sy'n gadael gofal, hyd yn oed os yw hynny'n golygu galwad ffôn nawr ac yn y man i weld sut mae pethau'n mynd gyda nhw."



# Cwynion a Chanmoliaeth

Caiff cwynion bellach eu cydlynu gan y tîm perfformiad ac mae systemau cadarn ar waith i gael data cadarn mewn perthynas â chwynion. Defnyddir canmoliaeth fel adborth i wella perfformiad. Roedd rhai o'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

Person a fu ar hyfforddiant diogelu a ddarparwyd gan y tîm diogelu.

> "Dim ond e-bost cyflym i ddweud diolch yn fawr i chi am bore yma, ac i ddweud wrthych ein bod wedi cael galwad ffôn y prynhawn yma gan yrwraig tacsi oedd yn bresennol. Dywedodd ei bod eisiau ffonio i ddweud pa mor dda oedd yr hyfforddiant yn ei barn hi."

Rhiant unigolyn â phroblemau iechyd meddwl yn dilyn ymyriad ar y cyd â'r adran dai:

> "Hoffai fy mab a minnau ddiolch i chi am eich cymorth yn ei helpu i ddod o hyd i lety dros dro. Mae'n rhyddhad i'w fam ac i minnau ac yn gysur enfawr iddo yntau, gan wybod i fod i ffwrdd o'r strydoedd ac mewn fflat saff a diogel."

Sylw gan Swyddog Gweithredol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglŷn â'n rhan ni yn y rhaglen trawsnewid iechyd meddwl.

> "Bu'n dipyn o daith, a phleser oedd cael y cyfle i weithio gyda'n gilydd mor agos a dod i'r man lle gallwn yn awr gynllunio er mwyn gwireddu ein model ar gyfer y dyfodol - bydd hynny bob amser yn digwydd trwy gydweithio oherwydd dyna sydd wedi peri'r llwyddiant bob cam o'r ffordd.
>
> Diolch i chi am eich cyngor proffesiynol a chadarn sydd wedi bod o gymorth. Rydych wedi bod yn hysbyseb wych i weithwyr cymdeithasol a rhoesoch dawelwch meddwl mawr ar adeg oedd yn peri cryn ansicrwydd i'm Tad."

Annwyl Syr/Madam,

Hoffwn gymryd yr amser i ddiolch i'ch staff am ddelio â mater yn ymwneud â pherthynas i mi sy'n anabl.

Ar yr achlysur hwn cefais gymorth AJ a CT.

Fodd bynnag, nid llythyr o ddiolch gan berthynas person anabl yn unig yw hwn.

Rwyf yn gweithio fel nyrs cyswllt rhyddhau cleifion ac rwyf yn ymdrin â 4/5 sir gan gynnwys o Gaerdydd i Gaerfyrddin.

Gwn fy mod yn siarad â rhywun o Sir Gaerfyrddin dim ond o glywed tôn llais, caredigrwydd a pharodrwydd y staff i helpu cyn gynted ag yr atebant y ffôn.

Mae'n aml yn digwydd o le dyrys a bydd pobl anhysbys yn ffonio'r Cyngor a gwasanaethau o'r fath.

Gan amlaf bydd yr ymateb hefyd yn ddigon diserch, os caf ddweud. Mae hyn, rwyf yn falch o ddweud, mor wahanol i chi.

Yn wir mae'n rhyddhad i mi pan fydd rhaid i mi drefnu gwasanaethau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin; er bod rhai cynghorau eraill yn barod i helpu, chi sydd nid yn unig yn cynnal y safon, chi sy'n gosod y safon.

Dwi ddim yn siŵr ai pobl y sir sydd at ei gilydd yn fwy caredig!

Neu a yw'r ethos cyffredinol a'r dulliau rheoli yn wahanol.

Nid yw o bwys, ac eto mae'n bwysig.

**Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, daliwch ati i'w wneud.**

Unwaith eto diolch i chi am wneud sefyllfaoedd anodd yn haws i lawer o bobl.

Yn bendant, rhaid eich bod chi'n ymfalchïo yn eich staff.

Yn gywir

Nyrs Staff



# 4. Hyrwyddo a gwella llesiant y rheiny yr ydym yn eu helpu

Gwnaed cynnydd yn ystod y flwyddyn gyda golwg ar amcanion gwelliant ein cynllun busnes tair blynedd. Fel yn achos y llynedd, mae angen cydbwyso'r cynnydd yn erbyn y cefndir o hinsawdd ariannol dynnach. Felly, mae rheoli adnoddau'n effeithiol wedi bod yn faes gweithgarwch allweddol yn ystod 2017/18.

Rydym yn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil i gydweithio â chydweithwyr yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Ein cryfderau presennol yw bod gennym strwythur rheoli tîm sefydledig a strwythur uwch-reolwyr sy'n cydnabod eu cyfrifoldebau i gyflawni'r amcanion busnes a'r blaenoriaethau. Mae gennym hefyd weledigaeth eglur ar gyfer ein gwasanaeth, a ddatblygwyd ar ôl ymgynghori â staff.

Daw heriau yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae hyn hefyd yn wir am yr angen i foderneiddio ein gwasanaethau er mwyn sefydlu sefyllfa gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Er gwaethaf hyn, rydym wedi gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a chyflawni cynnydd go iawn yn erbyn nifer o'r blaenoriaethau a osodwyd. Bydd meysydd lle na wnaed cynnydd yn cael sylw penodol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ystod o wybodaeth gan gynnwys adborth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, dangosyddion perfformiad, adroddiadau archwilio ac arolygu ac astudiaethau achos a chwynion.

Mae'r perfformiad cyffredinol mewn perthynas â dangosyddion perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn gadarnhaol, ac rwyf yn falch o adrodd am welliant ym mhrydlondeb ymchwiliadau diogelu, lleihad sylweddol yn ôl-groniad y ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) a pherfformiad llawer gwell mewn perthynas ag adolygiadau.

Datblygwyd y 'Llinell Gofal' i ddarparu gwasanaeth 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' i Sir Gaerfyrddin. Mae'r pwynt mynediad sengl integredig hwn yn darparu gwasanaeth dwyieithog 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer ymholiadau'n ymwneud ag iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol. Ym mis Mai 2017, daeth Sir Gaerfyrddin yn awdurdod 'braenaru' ar gyfer y gwasanaeth '111' cenedlaethol ac mae'r gwasanaeth 'Llinell Gofal' yn darparu llwybr di-dor ar gyfer '111' i lwybrau gofal cymunedol er mwyn osgoi derbyniadau i'r ysbyty. Mae ein model 'Llinell Gofal' wedi'i gydnabod fel esiampl i'w dilyn gan Gymdeithas y Gwasanaethau Teleofal. Cafodd ei ganmol gan Lywodraeth Cymru am ddarparu'r 'Cynnig Gweithredol' a chyrhaeddodd rownd derfynol Gwobrau Sector Cyhoeddus The Guardian am ei gyflawniad ym maes dysgu a datblygu'r gweithlu.

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwybodaeth gyhoeddus ar wefan Dewis Cymru (www.dewis.cymru). Mae'r wefan yn safle gwybodaeth gyhoeddus sy'n rhoi cyngor a chymorth ar faterion llesiant, o iechyd i fywyd teuluol.

Cynrychiolir yr isadrannau ar nifer o brosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â rhaglen foderneiddio'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac a ariennir gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Caiff y rhain eu goruchwylio gan Fwrdd Gwasanaethau Integredig y Sir ac mae'n cyfrannu at Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori.

Mae'r rhain yn cynnwys prosiect byw â chymorth mewn cydweithrediad â chydweithwyr ym maes tai, gwella darpariaeth seibiant, cyfleusterau gwell mewn perthynas ag integreiddio synhwyraidd, gwasanaeth cymorth ymddygiadol cadarnhaol ac adnodd i hwyluso'r gwaith o adolygu gwasanaethau anabledd.

Mae darpariaeth gofal canolradd y Sir sy'n ein cynorthwyo i allu gofalu am oedolion hŷn bregus yn eu cartrefi eu hunain, yn hytrach na'u bod yn cael eu derbyn i'r ysbyty, ar ei hennill yn sgil y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r meysydd gwasanaeth hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Cynghori a Chydgysylltu

ynghylch Trosglwyddo Gofal sydd wedi ennill gwobr, a'r Gwasanaeth Gofal Cartref Ymateb Cyflym.



Mae ein Timau Adnoddau Cymunedol hefyd wedi elwa o nifer cynyddol o therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael asesiad pan fo'i angen.

Mae Cyllid Cyfalaf gan y Gronfa Gofal Integredig wedi caniatáu i'r Storfa Offer Integredig Cymunedol (CICES) bresennol gael ei datblygu i fod yn Ganolfan Byw'n Annibynnol lle gall unigolion gael cyngor ynglŷn â'r cymhorthion ac addasiadau sydd ar gael i'w cynorthwyo i barhau'n annibynnol a gweld yr hyn sydd ar gael. Yn yr un modd, caiff staff eu cynorthwyo i roi cynnig ar offer newydd sydd ar gael ar y farchnad ac i dderbyn rhaglenni hyfforddi priodol mewn amgylchedd addas.

Mewn partneriaeth â chydweithwyr Iechyd y Cyhoedd, rydym wedi datblygu Fframwaith Gweithredu i ddatblygu a gweithredu strategaeth cyd-nerthu cymunedol yn y Sir. Mae'r Gronfa Gofal Integredig, trwy benodi Cydgysylltwyr Cydnerthu Cymunedol, wedi caniatáu i ni nodi rhwydweithiau cymorth yn y gymuned a allai wneud cryn gyfraniad tuag at wella llesiant unigolion. Mewn dull arloesol, mae iechyd y cyhoedd, iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn gweithio gyda gofal sylfaenol i ddatblygu cynllun rhagnodi cymdeithasol. Bellach mae pedwar rhagnodwr cymdeithasol wedi'u penodi sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda meddygon teulu er mwyn cynorthwyo pobl i ymgysylltu â'u cymunedau a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Gwneir hyn trwy gynllun bancio amser, lle rhoddir nodiadau credyd i'r cleifion er mwyn iddynt dreulio amser yn y gymuned yn gwneud pethau sy'n eu cadw'n iach. Cyflwynir y fenter trwy Gredydau Amser SPICE ac mae'r dystiolaeth wedi dangos bod Credydau Amser yn arwain at welliannau cynaliadwy mewn ansawdd bywyd. Dywedodd 65% o aelodau fod Credydau Amser wedi bod o gymorth i wella ansawdd eu bywyd yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac mae'r ffigur hwn yn codi i 75% yn achos y bobl sydd wedi bod yn aelodau am 18 mis i dair blynedd.

Mae ein Cydgysylltwyr Cydnerthu Cymunedol hefyd yn gweithio'n agos gyda chymunedau i'w helpu i ddeall dementia. Hyd yma mae Pontyberem a Marchnad Llanelli wedi derbyn y statws hwn, ac mae gwaith ar y gweill yn Llanymddyfri, Sanclêr, Talacharn a Hendy-gwyn ar Daf.

Mae ein perthynas â Chyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Hywel Dda a Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn gadarnhaol iawn ac rydym yn cydweithio ar nifer o brosiectau.

- Rydym yn cymryd rhan lawn yn Rhaglen Ranbarthol Hywel Dda - Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac mewn is-grwpiau cysylltiedig. Mae hyn bellach ar y cam gweithredu.
- Rydym yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chydweithwyr o'r trydydd sector i ddatblygu nifer o brosiectau arloesol sy'n gysylltiedig â thrawsnewid y grant iechyd meddwl, sy'n cynnwys cyfleuster argyfwng.
- Rydym yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid o'r trydydd sector ar draws y rhanbarth i weithredu nifer o fentrau strategol megis Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Diogelu, Hunanladdiad a Hunan-niweidio a nifer o fforymau cyfiawnder troseddol.
- Cawn hefyd ein cynrychioli ar grŵp y Rhaglen Anableddau Dysgu Ranbarthol ac ar is-grwpiau cysylltiedig. Mae'r grŵp hwn yn datblygu blaenoriaethau rhanbarthol.

Yn ystod 2017 buom yn datblygu prosiect cyffrous ar y cyd â'n cydweithwyr ym maes hamdden a Rhedeg Cymru. Mae sawl unigolyn â phroblemau iechyd meddwl yn hyfforddi ochr yn ochr â staff

iechyd, gofal cymdeithasol ac o'r trydydd sector i gwblhau Hanner Marathon Abertawe ym mis Mehefin. Rydym yn treialu'r prosiect hwn yn Llanelli yn y lle cyntaf, gyda golwg ar ei gyflwyno ledled y sir. Mae ymchwil wedi dangos y gall cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol wella iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag arwahanrwydd cymdeithasol a'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, ond y nod yn y pen draw yw darparu canlyniadau cadarnhaol i'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau anabledd. Yn dilyn yr adolygiad, rydym wedi sefydlu gweithgor gyda rhieni ac rydym yn ymgynghori â theuluoedd, grwpiau rhanddeiliaid a gwasanaethau plant a fydd yn cychwyn cynllun peilot ar ffordd newydd o ddyrannu adnoddau drwy'r Offeryn Dyrannu Adnoddau. Bydd gwersi o'r cynllun peilot hwn yn cael eu cymhwyso i wasanaethau oedolion gyda golwg ar sefydlu model gwasanaethau newydd yn ystod 2018.

Gwnaed cryn gynnydd o fewn ein Prosiect Llety ac Effeithlonrwydd ar draws yr holl ffrydiau gwaith, sy'n golygu ein bod wedi rhagori ar y targed effeithlonrwydd ariannol cyfun (Effaith Blwyddyn Lawn).

Tuag at ddiwedd 2017 penodwyd Swyddog Datblygu Llety, ac mae'r swydd newydd hon eisoes wedi cael effaith ar sicrhau bod pobl yn cael llety addas ar draws yr is-adran. Cychwynnwyd gwaith ar nifer o brosiectau i alluogi unigolion i gael mynediad i ystod ehangach o gyfleoedd am lety, ac i leihau'r ddibyniaeth bresennol ar leoliadau preswyl a gwella perfformiad mewn perthynas â thai gwag.

Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau wedi parhau i ddarparu gwasanaeth da sydd wedi cael ei werthfawrogi gan y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac a gydnabuwyd yn allanol pan dderbyniodd wobr BASW y llynedd.

Cychwynnwyd y gwaith o ddadansoddi'r galw er mwyn datblygu cynllun gweithlu ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Mae adnodd diogelu wedi cael ei leoli yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus gyda Phlant ag Anableddau, ac mae'r tîm Pontio ar fin treialu trefniant derbyn ar gyfer gwasanaethau anabledd.

Yn gyffredinol mae ein perfformiad yn ystod 2017 wedi gwella, ond rydym yn cydnabod bod angen cymryd camau adferol mewn perthynas â nifer yr unigolion a leolir mewn lleoliadau preswyl ac mae hyn yn brif flaenoriaeth. Rydym yn gwneud cynnydd da ac er bod meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt; mae'r seilwaith bellach yn ei le i'n galluogi i wella'n barhaus ac i gyflawni'r amcanion busnes a bennwyd ar gyfer 2018-2021.

Mae'r arian ar gyfer Grantiau Byw'n Annibynnol Cymru (WILG) bellach yn dod yn uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol yn hytrach na'i fod yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd y newid hwn rydym yn adolygu'r holl gynlluniau gofal a chymorth ar gyfer Grantiau Byw'n Annibynnol Cymru i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau y maent eu heisiau.

Yn 2017 parhaodd cyfarfodydd y Bwrdd Ymarfer a Pholisi, sy'n goruchwylio gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Caiff uwch-swyddogion ar draws y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion eu cynrychioli ar y grŵp hwn. Rydym wedi cytuno ar asesiad cyffredin ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion ac wedi ei dreialu mewn timau anableddau dysgu. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn mynychu'r Bwrdd Ymarfer Oedolion yn rheolaidd, sydd wedi cryfhau'r cysylltiadau â'r tîm gweithredol.

Rydym wedi adolygu'r strwythur yn y Tîm Camddefnyddio Sylweddau fel ei fod yn adlewyrchu'r strwythur ar draws yr is-adran. Mae'r tîm hefyd wedi symud i Tŷ Elwyn, sydd wedi gwella cysylltiadau â'r timau cymunedol.

Rydym yn gweithredu'r agenda ataliol o fewn y timau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ers Ebrill 2017; e.e. mae'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol wedi ymateb i atgyfeiriadau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae ein cynllun i wella sefydlogrwydd lleoliadau yn parhau i gael ei adolygu trwy'r panel lleoli a'r panel parhauster a thrwy ein strategaeth leoli. Bydd penodi Swyddog Lleoli newydd o fewn y tîm maethu o gymorth gyda sefydlogrwydd lleoliadau gan mai'r prif ddyletswyddau fydd edrych ar gydweddu. Cynhelir cyfarfodydd cefnogi lleoliad yn rheolaidd i nodi unrhyw risg o fod y lleoliad yn methu a chanolbwyntio ar unrhyw gymorth ychwanegol y mae ei angen ar ofalwyr.

Yn y tymor hir byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar atal ac ar gadw plant gartref gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau a thu allan i'r system ofal lle bynnag y bo hynny'n bosibl, trwy ein gwasanaeth 'Edge of Care' newydd a thrwy ddefnyddio dull integredig mewn cydweithrediad ag eraill.

Cynhelir pob cynhadledd achos amddiffyn plant o dan y model 'Signs of Safety' ac mae'r ymarfer yn datblygu ar draws pob tîm. Mae'r holl staff wedi cael sesiynau briffio, a rhoddwyd hyfforddiant uwch pellach i nifer o ymarferwyr sy'n hyrwyddo ac yn gweithredu fel ymarferwyr arweiniol o fewn y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth Maethu hefyd wedi datblygu'r model hwn o fewn ei arferion gwaith. Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) yn gweithredu mewn modd mwy rhagweithiol ac yn symud tuag at ymgorffori arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Dyrennir Ymgynghorydd Personol i bob person ifanc sy'n gadael gofal sydd yn ymweld yn rheolaidd, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno yn ei gynllun llwybr gan fod cynllun llwybr pob plentyn sy'n ymweld yn unigryw iddo ef/hi. Mae cynllun gwaith comisiynu ar y cyd wedi'i roi ar waith gyda'r tîm Cefnogi Pobl a sefydlwyd grŵp llywio. Rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella'r opsiynau o ran llety priodol a chymorth â thai i'r holl bobl ifanc agored i niwed rhwng 16-25 oed. Mae cynllun ar waith i ddatblygu, datgomisiynu ac ail-gomisiynu llety priodol. Mae Llwybr Llety St. Basil i'r rheiny sy'n Gadael Gofal yn cael ei archwilio yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi parhau i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio tir ysgolion y tu allan i'r oriau dysgu i alluogi plant i gael mwy o fynediad i gyfleoedd chwarae. Mae Ysgol Beca, Ysgol Llys Hywel ac Ysgol Gyfun Emlyn eisoes wedi rhoi hyn ar waith. Mae'r Pod Chwarae yn Ysgol Brynteg bellach yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac mae mynediad ar gael iddo y tu allan i'r oriau addysgu. Mae ysgolion newydd yn cael eu cynllunio i ganiatáu'r mynediad hwn.

Mae'r Tîm Addysg a Llesiant (LAC) yn parhau i ddarparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ymlyniad, cyngor a chymorth i bob ysgol er mwyn eu paratoi'n well i allu diwallu anghenion emosiynol plant agored i niwed. Mae'r Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc yn cynorthwyo teuluoedd ac ysgolion i wella canlyniadau. Maent yn cydweithio ag ysgolion, y sector iechyd a'r sector gwirfoddol i sicrhau eu bod yn 'ymwybodol o ofalwyr ifanc' ac i ddarparu ystod o fentrau ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae ysgolion yn cymryd rhan yn y Wobr Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc.

Mae rhaglenni trawsnewid ar waith yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ac mae'r is-adran yn cymryd rhan weithredol yn y ddwy raglen. Mae'r rhaglen Iechyd Meddwl wedi symud i'r cam gweithredu.

Sefydlwyd rhaglen Anableddau Dysgu yn ystod 2017. Daethpwyd i gytundeb â'r rhanddeiliaid ynglŷn â'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer comisiynu ar y cyd. Mae'r ddwy raglen hyn hefyd yn flaenoriaethau o fewn y Bartneriaeth Ranbarthol.

Mae'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol wedi'i hen sefydlu, yn ogystal â'r is-grwpiau ar gyfer hyfforddiant, polisi ac ymarfer ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Mae'r Grŵp Gweithredol Lleol yn gweithio'n dda, mae'r holl bartneriaid yn dod iddo ac mae perthynas wedi datblygu rhwng asiantaethau allweddol. O ganlyniad ceir mwy o hyder yn y dull amlddisgyblaethol o ddiogelu.

Bu gwelliant sylweddol ym mhrydlondeb ymchwiliadau diogelu, a chafodd systemau a phrosesau eu hailgynllunio fel bod modd monitro data a pherfformiad yn fwy effeithiol. Gwnaed gwelliannau i'r ffurflen atgyfeirio hefyd i alluogi staff i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ac amserol.

Yn ystod 2017 sefydlwyd grŵp strategol rhanbarthol i ymateb i ddeddfiad Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae ein penderfyniad i ddatblygu dull rhanbarthol, ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn cyd-fynd â'r dull rhanbarthol o ddiogelu a'r bartneriaeth gref a'r diwylliant o gydweithio sydd eisoes wedi'u sefydlu ar draws ôl troed rhanbarthol mor fawr.



Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys pedair ardal Awdurdod Lleol sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys a dau fwrdd iechyd lleol sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys; ac mae'n ofynnol o dan y Ddeddf fod yr awdurdodau hyn ar y cyd yn cyhoeddi strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cadeirydd y grŵp rhanbarthol yw Pennaeth Gwasanaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, sydd hefyd yn arwain y gwaith hwn ar gyfer y rhanbarth. Mae camau hefyd ar y gweill i recriwtio Ymgynghorydd Rhanbarthol a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth a'r fframwaith cyflawni er mwyn atal trais a chamdriniaeth, amddiffyn dioddefwyr a chefnogi pawb yr effeithir arnynt.

Mae strategaeth ddrafft a chynllun cyflawni wedi'u cwblhau a byddant yn destun ymgynghori rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2018. Un o'r prif ddulliau o gyflwyno'r Ddeddf yw'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau statudol sy'n amlinellu pwy y mae'n rhaid eu hyfforddi yn unol â deilliannau dysgu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, a hynny o fewn amserlenni penodedig.

Mae'n nodi chwe grŵp targed i'w hyfforddi a'r hyfforddiant gloywi/diweddaru a fyddai'n ofynnol dros gyfnod o bum mlynedd. Hyd yma mae 3,353 o bobl yn Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin wedi derbyn hyfforddiant trwy'r modiwl e-ddysgu; bydd hyfforddiant Grwpiau 1, 2 a 3 yn cychwyn ym mis Ebrill 2018.

Mae'r partneriaid wedi bod yn cydweithio er mwyn cytuno ar ddogfen drothwy, a fydd yn destun ymgynghori ac yn cael ei rhoi ar waith yn ystod 2018. Yr Uwch-reolwr Diogelu sydd wedi bod yn arwain y gwaith hwn. Mae'r modd y cofnodir prosesau diogelu wedi'i symleiddio a chyflwynwyd systemau newydd, sy'n ein galluogi i fonitro a mesur perfformiad yn fwy effeithiol.

Bu ystod helaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu o fewn a rhwng sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau "Hyfforddi'r Hyfforddwr" o fewn y Cyngor er mwyn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (gan gynnwys yr elfennau sy'n ymwneud yn benodol â diogelu) a hyfforddiant ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys ar y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) newydd.

Ceir prosesau sefydledig ar gyfer monitro perfformiad darparwyr yn y sector cartrefi gofal ac mewn darpariaeth gofal cartref. Mae nifer o ddarparwyr wedi bod yn destun Pryderon Cynyddol yn ystod 2017. O dan yr amgylchiadau hyn bu staff comisiynu, diogelu a rheoli gofal yn cydweithio i sicrhau bod unigolion wedi'u diogelu.

Un cyflawniad arwyddocaol iawn a wnaed yn ystod 2017 yw bod yr adolygiad TIC o gyfleoedd dydd wedi symud i'r cam gweithredu. Cafodd yr adolygiad hwn ei arwain gan y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau a staff rheng flaen. Sefydlwyd strwythur rheoli prosiect i weithredu argymhellion yr adolygiad TIC, a fydd yn llywio model gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a bydd yn darparu gwell canlyniadau a llwybrau dilyniant i unigolion.

Cynhaliwyd adolygiad TIC hefyd o'r broses o gomisiynu lleoliadau preswyl, o'r asesiad i'r lleoliad. Cafodd yr adolygiad hwn, sydd wedi tynnu sylw at feysydd sylweddol lle mae angen gwelliant, groeso brwd gan y staff. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio â'r sector iechyd i ailddylunio'r broses.

Mae'r is-adran wedi bod yn cymryd rhan lawn yn y broses o ddatblygu Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad a'r Cynllun Ardal Leol, sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Anableddau Dysgu a chynigion i'w cyflwyno i'r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2018/2019. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a dyma fydd busnes craidd yr is-adran ar gyfer 2018/2019 fel rhan o'r agenda partneriaeth ranbarthol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn arwain y Datblygiad Llynnoedd Delta yn Llanelli. Bydd y Pentref Llesiant, a fydd yn cynnwys cyfleusterau hamdden, gofal ychwanegol, a darpariaeth iechyd a nyrsio, yn brosiect adfywio gyda'r nod o drawsnewid ein hymagwedd tuag at iechyd a llesiant yn Llanelli. Mae'r is-adran Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu hefyd wedi bod yn rhan o'r datblygiad hwn, gan sicrhau y bydd y pentref llesiant yn diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu a materion iechyd meddwl.

Rydym wedi cydweithio â phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Anableddau Dysgu a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Ebrill.

Byddwn yn cefnogi'r dull o ddatblygu strategaeth eiriolaeth gyffredinol ar gyfer plant ac oedolion. Rydym yn ystyried dull o weithio gyda Chyngor Sir Powys i ddod yn rhan o wasanaeth eiriolaeth rhanbarthol ehangach i blant ac oedolion er mwyn rhoi ystyriaeth i drefniadau diogelu rhanbarthol y pedair sir. Mae hyn yn rhoi'r gefnogaeth sylfaenol i ni i ddarparu cyllid i Rwydwaith Eiriolaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru er mwyn hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â defnyddwyr.

Ar hyn o bryd mae gennym ein trefniadau comisiynu eiriolaeth ein hunain fel Awdurdod Lleol, ar hyn o bryd rydym yn comisiynu eiriolaeth arbenigol e.e. ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, iechyd meddwl, dementia, plant a gofalwyr. Ar hyn o bryd mae gennym gontract gyda Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin ac Eiriol. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn comisiynu eiriolaeth gennym ni.

Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro, rydym wedi cynnal hunanasesiadau ar gyfer gweithredu'r côd ymarfer ar eiriolaeth. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod lle i adeiladu ar y trefniadau presennol a'u gwella. Rydym wedi nodi y gellid gwella'r trefniadau comisiynu eiriolaeth ar gyfer oedolion hŷn heb ddementia a'r rheiny ag anableddau corfforol.

Gyda'n partneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sydd ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o ddarpariaeth eirioli mewn perthynas ag Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, mae hyn yn gyfle da i sicrhau bod y ddwy elfen o'r gwaith yn gysylltiedig â'i gilydd.

# 5. Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion

## (a) Ein gweithlu a'r modd yr ydym yn cefnogi eu rôl broffesiynol

Dosbarthwyd arolwg staff ar gyfer oedolion yn ystod mis Medi 2017 a'r thema eleni oedd cyfathrebu, arfarnu ac ymgysylltu. Mae yna 1,886 o aelodau staff yn yr adran a chafwyd 653 o ymatebion, sy'n cyfateb i 35%.

Yn dilyn yr arolwg staff a'r Digwyddiad ar gyfer Rheolwyr Pobl gofynnom i holl staff yr Adran*"Sut Gyflogwr yw eich Is-adran?"*

**Pa mor debygol fyddech o argymell eich is-adran fel cyflogwr i rywun rydych yn ei adnabod?**

**Y sgôr cyffredinol ar gyfer yr Adran Cymunedau yw "Da"**

Mae 558 o ymatebion wedi dod i law, sef **30%** o holl weithlu ein hadran.

Trefnom Ddigwyddiad ar gyfer Rheolwyr Pobl ac roedd amrywiaeth o reolwyr o bob is-adran yn bresennol sef **194** o reolwyr pobl i gyd, roedd hyn yn cyfateb i **72%**.

Roedd thema'r digwyddiad yn seiliedig ar Lesiant. Roedd yr adborth a gafwyd o'r digwyddiad yn gadarnhaol.

"Cyfle gwych i rannu sylwadau a phrofiadau. Roedd hyd y sesiwn yn briodol ac roedd yr awyrgylch yn hamddenol."

"Roedd yn dda cael dod i gysylltiad â phobl broffesiynol eraill o'r Adran"

"Roedd yn dda i gael rhannu pryderon a syniadau."

"Roedd yn dda ar gyfer rhwydweithio rhwng gwahanol is-adrannau"

"Negeseuon da iawn gan y Cyfarwyddwr o ran perfformiad a chyfeiriad yr adran."

"Digwyddiad gwirioneddol dda o ran rhwydweithio a datblygu perthynas ledled yr adran, yn enwedig yn thematig."

Cynhaliwyd Arolwg Staff yn y Gwasanaethau Plant yn ystod 2017:

- Roedd **37%** wedi bod yn gweithio i Sir Gaerfyrddin ers 10+ mlynedd
- Teimlai **89%** o'r staff fod yr uwch-reolwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt
- Roedd **66%** yn cael boddhad o'u swydd; roedd **26%** yn cael boddhad mawr
- Teimlai **16%** o'r staff yn rhwystredig ynglŷn â chyfarpar TG / systemau / cronfeydd data a phrosesau oedd wedi dyddio.
- Teimlai **93%** o'r staff (154) a holwyd y gallent fynd at rywun yn yr Awdurdod Lleol i gael cymorth a chefnogaeth pe bai ganddynt broblem (mewn perthynas â'r gwaith neu â'u bywyd personol).

At ei gilydd ymddangosai fod y staff yn gyffredinol yn hapus ac yn cael boddhad o'u swydd. Ymateb amlwg iawn oedd fod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith y maent yn ei wneud yn helpu ac yn cefnogi teuluoedd, a'u bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae'r gweithwyr yn ymwneud â chlustnodi a chyfrannu at wella'r gwasanaeth drwy'r Grŵp Gwella Adborth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r timau gofal plant.



Fel asiantaeth arweiniol ar gyfer amddiffyn plant mae'n bwysig sicrhau bod ein staff a'r systemau sydd ar waith yn diogelu llesiant plant. Rydym yn ystyried ei bod hi'n bwysig iawn cadw gweithwyr cymdeithasol sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â phrofiad yn maes amddiffyn plant, gyda llwythi achosion sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar asesu a risg, gan gynnal ac adeiladu ar gysylltiadau ag asiantaethau eraill, a hyrwyddo gwaith diogelu trwy'r awdurdod cyfan.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad, ymroddiad a gwaith caled y gweithlu wrth barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a sicrhau gwelliannau ac effeithlonrwydd, er gwaethaf nifer o newidiadau diweddar i ymarfer yn sgil gweithredu'r Ddeddf newydd a modelau gweithio newydd.

Rydym yn parhau i fonitro llwythi achosion bob mis i sicrhau eu bod yn briodol ac yn hylaw. Mae gennym ymrwymiad cryf i sicrhau bod goruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad yn digwydd yn rheolaidd.

Mae ein gweithlu gwasanaethau cymdeithasol plant yn parhau i fod yn sefydlog, gyda lefel y swyddi gwag yn isel sef 4.3% yn unig (ar 31/3/18).

Mae cadw nifer y swyddi gwag mor isel ag y bo modd yn hollbwysig wrth sicrhau bod ein holl blant ac oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, a phlant sy'n derbyn gofal, yn cael eu diogelu. Mae'r gweithlu rheoli gofal mewn gwasanaethau oedolion hŷn wedi bod yn hynod sefydlog dros y blynyddoedd; fodd bynnag, yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gweld nifer o staff yn gadael. Ymddengys bod recriwtio staff newydd hefyd yn gallu bod yn anodd, yn enwedig wrth geisio denu staff profiadol a staff sydd â diddordeb mewn gweithio yn ardal Tywi, Taf a Theifi.

Mae recriwtio a chadw staff ar gyfer ein gweithlu darparu gofal cymdeithasol hefyd yn parhau i fod yn broblem. Rydym wedi bod yn datblygu rôl gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi arwain at fod darparwyr gofal cymdeithasol yn ymgymryd â thasgau a oedd yn draddodiadol yn cael eu gwneud gan ddarparwyr gofal iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo'r broses o broffesiynoli'r gweithlu, yn rhannol er mwyn rhoi hyder i'r cyhoedd y byddant yn derbyn gwasanaeth gan unigolyn cymwys sy'n atebol yn broffesiynol. Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn awr wedi'u cofrestru ac mae fframwaith CPEL ar waith i gefnogi'r broses o ddatblygu ymarfer. Darperir rhaglen ymsefydlu sy'n dilyn cynllun i'r holl staff sy'n dechrau mewn gwasanaethau oedolion a phlant.

Darperir grwpiau cefnogi cymheiriaid a chynllun mentora i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ynghyd â rhaglen 'blwyddyn ymarfer gyntaf' fel rhan o'n Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP).

Mae ein hymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus i sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol a medrus wedi parhau trwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Pennaeth y Gwasanaethau Integredig yw Hyrwyddwr Iaith Gymraeg yr Adran. Sefydlwyd grŵp strategol i sicrhau cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg. Mae'r grŵp wedi goruchwylio'r gwaith o ddadansoddi ein sefyllfa bresennol yn Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â'r 'cynnig gweithredol' ac mae gan bob is-adran gynlluniau ar waith ar gyfer gwelliant.

> Caiff y gweithlu gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin ei gynnal gan Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a chyllid cyfatebol ychwanegol yr Awdurdod Lleol. Caiff cynlluniau'r gweithlu eu datblygu ar y cyd â'r sector a chaiff y strategaeth ei chymeradwyo drwy gyfrwng Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru. Caiff y cynllun gwaith ei reoli gan dîm Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer Gwasanaeth Datblygu Trefniadaeth Rheoli Pobl is-adrannol y sector cyfan.

Yn 2017-18, cyflwynodd Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru dros 11,557 o gyfleoedd dysgu a datblygu i weithwyr ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, a oedd yn cynnwys 1,802 o staff y sector gofal annibynnol.

Caiff hyfforddiant ei ddarparu'n lleol neu'n rhanbarthol er mwyn helpu ymarferwyr i wella a datblygu eu sgiliau. Roedd y rhain yn cynnwys y rhaglenni canlynol:

- Derbyniodd 342 aelod o staff hyfforddiant ar ystod o raglenni'n ymwneud â dementia.
- Bu 467 o staff yn bresennol mewn ystod o sesiynau ar Ddiogelu.
- Dilynodd 3,353 aelod o staff ar draws y Cyngor fodiwl e-ddysgu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015. Roedd hyn yn cynnwys staff o'r Gwasanaethau Cymunedol, Addysg a Gwasanaethau Plant, yr Amgylchedd, y Gwasanaethau Corfforaethol ac Adran y Prif Weithredwr.

Ar gyfer 2017-18 bydd y meysydd canlynol yn flaenoriaethau allweddol:

- Cynorthwyo'r gweithlu gofal cartref i baratoi ar gyfer cofrestru a gwybodaeth ategol/rôl yr unigolion cyfrifol.
- Cynorthwyo rheolwyr gofal cymdeithasol i hyfforddi, datblygu a chymhwyso.
- Gofal sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau a Chymorth Ymarfer.
- Rhaglenni cymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.
- Rhaglenni ôl-gymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.
- Cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol.
- Galluogi'r gweithlu i fodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer cymhwyso a/neu gofrestru.
- Ystod o raglenni rhanbarthol a lleol.

Bu Tîm Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynorthwyo pobl i ymgymryd ag ystod o gymwysterau ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Yn 2017-18, cyflawnodd 44 o weithwyr gofal cymdeithasol Unedau, Tystysgrifau a Diplomâu Iechyd a Gofal Cymdeithasol QCF. Yn ogystal â hyn, cefnogwyd ystod o gymwysterau rheoli ac ôl-gymhwyso o Lefel 2 i Lefel 7.


Yn 2017-18 derbyniwyd a secondiwyd 41 o bobl gan Gyngor Sir Caerfyrddin i hyfforddi fel Gweithwyr Cymdeithasol. Cynhelir yr hyfforddiant dros 3 blynedd ar gyfer myfyrwyr gradd a thros 2 flynedd ar gyfer myfyrwyr gradd meistr. Yn 2017-18, cyflawnodd 2 aelod o staff Sir Gaerfyrddin eu cymhwyster tra oeddent ar secondiad. Mae'r Tîm hefyd yn gefnogol i gyflwyno Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus [CPEL] i weithwyr cymdeithasol cymwys, ac yn ystod 2017-18 dechreuodd 5 Gweithiwr Cymdeithasol gyrsiau CPEL. Yn ogystal â'r rhain, dechreuodd 22 Gweithiwr Cymdeithasol ar y Rhaglen Gadarnhau wedi iddynt lwyddo i gwblhau eu blwyddyn gyntaf o ymarfer cymwys. Rydym yn parhau i weithredu ein rhaglen cymorth a datblygu ar gyfer y flwyddyn gyntaf o ymarfer, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant a chymorth mentora sydd yn ymestyn i'w tair blynedd gyntaf o ymarfer.

## (b) Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

| Cyllideb Sylfaenol 2018-2019 | Gwariant £k | Incwm £k | Net £k |
|---|---|---|---|
| Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel | 19,253 | -5,593 | 13,660 |
| Gwasanaethau Integredig | 44,275 | -14,032 | 30,243 |
| Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu | 46,656 | -12,345 | 34,311 |
| Perfformiad, Dadansoddi a Systemau | 329 | -23 | 306 |
| Cymorth | 4,066 | -1,873 | 2,193 |
| Comisiynu | 903 | -19 | 884 |
| Y Bartneriaeth Ranbarthol | 1,163 | -964 | 199 |
| Gwasanaethau Plant | 25,111 | -5,762 | 19,349 |
| **Cyfanswm** | **141,756** | **-40,611** | **101,145** |

Y pwysau mwyaf o ran rheoli'r gyllideb adrannol yw'r twf yn nifer y bobl hŷn yn y sir ynghyd ag anghenion cynyddol gymhleth y bobl fregus iawn a'r henoed. Os na chaiff hyn ei reoli, mae'n arwain at gynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth a chynnydd ym maint y pecynnau sydd gan bob unigolyn. O gysylltu hyn â chostau cynyddol darparwyr oherwydd costau uwch (isafswm cyflog) a'r disgwyliadau cynyddol uwch sydd ar safonau yn sgil rheoleiddio, mae'n creu proffil cyllidebol a allai fod yn drychinebus ar gyfer pob Cyngor.

Sut ydym yn perfformio yn erbyn y twf o 4.1% a ragwelir gan y Sefydliad Iechyd?




*Gwefan y BBC) Ym mis Mai 17 amcangyfrifodd y Sefydliad Iechyd y byddai'r pwysau ar ofal cymdeithasol yng Nghymru yn cynyddu o tua 4.1% y flwyddyn dros y 15 mlynedd nesaf o ganlyniad i newidiadau yn y boblogaeth, natur cyflyrau cymhleth a chronig a chynnydd mewn costau.*

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi llwyddo i gynnwys ein gwariant a chomisiynu gofal mewn modd cymesur, sy'n hyrwyddo gofal person-ganolog ac annibyniaeth.

Mae datblygu cyllidebau cyfun ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cartrefi gofal yn orfodol erbyn Ebrill 2018. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda eisoes berthynas waith effeithiol; mae hyn yn cynnwys cyllidebau cyfun ac integreiddio ymhellach y gwaith o reoli a darparu gwasanaethau ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol i bobl hŷn.

Sefydlwyd bwrdd prosiect i oruchwylio'r gwaith hwn a phenodwyd rheolwr prosiect. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi nodi Sir Gaerfyrddin fel 'arweinydd' ar gyfer y flaenoriaeth ranbarthol hon yn ymwneud â Gofal Gorllewin Cymru a bydd yr hyn a ddysgir o hyn yn cael ei rannu â chydweithwyr yng Ngheredigion a Sir Benfro.

Mae'r swyddogion wedi ymgymryd â dadansoddiad manwl o gostau darparwyr ac wedi cychwyn ar gyfres o drafodaethau â'r 5 darparwr mwyaf o ran byw â chymorth.

Yn sgil y wybodaeth a ddatblygwyd ynglŷn â chostau staffio a'r dull agored a thryloyw a ddefnyddiwyd, roedd y trafodaethau hyn yn llwyddiannus ac maent hefyd wedi arwain at well perthynas rhwng y darparwr a'r comisiynydd.

## (c) Ein harweinyddiaeth wleidyddol leol, llywodraethu ac atebolrwydd

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yw Cadeirydd y Grŵp Gweithredol CYSUR.

Lleolir yr Is-adran Gwasanaethau Plant o fewn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n hyrwyddo cysylltiadau cryfion ag ysgolion, lles addysg a gwasanaethau seicoleg addysg.

Ceir cyfeiriad strategol clir ar gyfer y gwasanaeth gyda phrotocol ffurfiol ar waith ar gyfer llywodraethu gofal cymdeithasol sy'n cysylltu'r gwasanaethau plant â'r agenda gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai ehangach. Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol oruchwyliaeth dda dros faterion gwasanaethau plant a chynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ceir perthynas effeithiol rhwng Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn gefnogol i'r gwasanaethau ac yn ymweld â thimau'r rheng flaen a darparwyr gwasanaeth yn rheolaidd ac yn mynd i grwpiau cymunedol priodol yn ogystal â chynadleddau cenedlaethol perthnasol. Yn yr un modd, ceir cyfleoedd rheolaidd i gysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymunedol.

Mae gan Sir Gaerfyrddin gytundeb Adran 33 cyffredinol ar waith ers 2007. Darparodd hyn y trefniadau llywodraethu angenrheidiol er mwyn datblygu seilwaith gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol integredig i gefnogi iechyd a llesiant oedolion hŷn ac oedolion ag anableddau corfforol a/neu namau synhwyraidd. Yn benodol mae hyn yn berthnasol i'r is-adran Gwasanaethau Integredig ac mae wedi caniatáu i ni ddatblygu strwythur rheoli integredig. Mae ein Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwyr Ardal Leol yn gyfrifol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Sir Gaerfyrddin a'i hardaloedd lleol.

Sefydlwyd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ers 2016 yn unol â'r ddyletswydd o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) ac mae'n gosod rheidrwydd ar Gynghorau a Byrddau Iechyd Lleol i sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun - wedi'u tanategu gan gytundebau cyfreithiol –

- Arfer eu swyddogaethau o ran cartrefi gofal i oedolion (cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio) (erbyn 6 Ebrill 2018).
- arfer eu swyddogaethau o ran cymorth i deuluoedd.
- Swyddogaethau penodedig a arferir ar y cyd mewn ymateb i Asesiadau o'r Boblogaeth, lle ystyrir bod trefniadau o'r fath yn briodol.

Cynrychiolir y Cyngor ar lefel uwch ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol statudol gan y Cyfarwyddwr Cymunedau a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, sydd yn is-gadeirydd.

Mae'r Cyngor yn cynnal Uned Cydweithredu Rhanbarthol fach sy'n darparu cymorth strategol a chymorth rhaglen i'r bartneriaeth a chaiff ei chyllido trwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â chyfraniadau gan dri awdurdod lleol y rhanbarth.

Mae hefyd wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu trefniadau llywodraethu rhanbarthol uwch, sydd â'r nod o symleiddio'r broses integredig o wneud penderfyniadau ar draws asiantaethau partner trwy strwythur cyd-bwyllgor. Disgwylir i'r trefniadau hyn fod yn weithredol o ganol 2018 ymlaen.

Mae Sir Gaerfyrddin, fel yr arweinydd ar gyfer blaenoriaeth strategol 'cronfa gyfun' Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, hefyd yn archwilio cyfleoedd eraill i gyfuno cronfeydd ar draws ein rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys Stordai Offer Integredig a Gwasanaethau Gofal Canolradd.

Maes blaenoriaeth arall ar gyfer y Bartneriaeth yw 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac atal'. Yma mae Sir Gaerfyrddin wedi arwain y gwaith o gomisiynu capasiti allanol er mwyn adolygu'r trefniadau presennol ledled rhanbarth Gorllewin Cymru gyda golwg ar ddatblygu Fframwaith Atal ar gyfer Gorllewin Cymru, wedi'i hategu gan safonau rhanbarthol cyffredin.

Llywiwyd y gwaith hwn yn uniongyrchol gan waith arloesol Dewis Sir Gâr. Mae'r cydweithio rhwng yr awdurdod a Chyngor Sir Penfro mewn perthynas â chomisiynu strategol hefyd yn gosod sylfaen ar gyfer yr uchelgais o ddatblygu arferion comisiynu integredig ar draws y tri awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn y dyfodol.

O dan adran 14A o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol hefyd ddatblygu Cynllun Ardal ar y cyd, i fod yn gyson â'r broses asesu poblogaeth gyfun ac i gyfrannu'n sylweddol at yr amcan o gael gwasanaethau gofal a chymorth integredig a chynaliadwy. Datblygwyd Cynllun Ardal Gorllewin Cymru dros y 12 mis diwethaf gyda rhanddeiliaid allweddol o Gyngor Sir Caerfyrddin yn cyfrannu at y broses. Mae'r cynllun i fod i gael ei gyhoeddi ar wefan Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a Phartneriaid erbyn mis Ebrill.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Integredig Sir Gaerfyrddin yn adrodd yn uniongyrchol wrth Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ac yn sicrhau bod y blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y naill sefydliad a'r llall yn cael eu cyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol ar lefel weithredol.

Sefydlwyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi amcanion llesiant allweddol, sydd wedi bod yn destun ymgynghori ac sydd wedi'u cyhoeddi. Sefydlwyd Grwpiau Thematig i oruchwylio'r broses o'u gweithredu a chaiff yr holl gamau gweithredu eu cynnwys yn y cynlluniau busnes.

Mae ein Polisi Diogelu Corfforaethol yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth ymhlith staff, cynghorwyr a phobl sy'n gweithio ar ein rhan ynghylch y canllawiau sydd ar waith er mwyn diogelu plant ac oedolion.

Mae gennym gynlluniau gweithredu ar gyfer y Tîm Diogelu Pobl, Amddiffyn Oedolion a Diogelu Corfforaethol, a rhoddir blaenoriaeth uchel i'r rhain.


Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gydymffurfio â'r ddyletswydd 'atal' o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau chwarae rhan trwy ymateb i'r her ideolegol - gan gynnwys rhoi cyngor a chymorth i helpu i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Felly, os ydym yn meddwl bod person mewn perygl o gael ei radicaleiddio, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i asesu'r sefyllfa, a datblygu cynllun cymorth ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

Mae'r strwythur canlynol yn amlinellu'r drefn arweinyddiaeth a llywodraethu ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a sut yr ydym yn gweithredu o fewn proses y Cyngor o wneud penderfyniadau. Caiff yr holl benderfyniadau a pholisïau mawr eu gwneud gan y Cyngor Sir.

| **Cyngor Sir Caerfyrddin** | **74 aelod etholedig.** |
|---|---|
| Y Bwrdd Gweithredol | 10 aelod etholedig, cabinet y Cyngor. Arweinydd y Cyngor yw'r Cadeirydd, sef y Cynghorydd E. Dole |
| Aelodau ein Bwrdd Gweithredol | Y Cynghorydd Jane Tremlett - Gwasanaethau Oedolion |
| | Y Cynghorydd Glynog Davies - Gwasanaethau Plant |
| Y Pwyllgorau Craffu | Mae aelodau etholedig hefyd yn craffu ar y penderfyniadau a wnawn. Mae gennym y pwyllgorau craffu canlynol:<br>• Gofal Cymdeithasol ac Iechyd<br>• Addysg a Gwasanaethau Plant |
| Y Tîm Rheoli Corfforaethol | Chaired by the Chief Executive and includes the Assistant Chief Executives and Directors |
| Y Tîm Rheoli Adrannol | Yr Adran Cymunedau, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr |
| Cyfarfodydd Gwasanaeth a Pherfformiad yr Uwch-reolwyr | Dan gadeiryddiaeth y Penaethiaid Gwasanaeth |
| Cyfarfodydd Tîm | Mae pob un o dimau'r is-adran yn cael cyfarfodydd tîm sy'n cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r rheolwyr yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'w timau ynghylch y penderfyniadau a wnaed trwy gyfuniad o gyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd un i un/goruchwylio. |

# 6. Strwythur Rheoli




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Atodiad 1

## Beth yw ein Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2018/2019

### Oedolion

1. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, gan gynnwys:
2. Datblygu mynediad 24 awr i wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
3. Cyflwyno cyllideb gyfun rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd ar gyfer gofal preswyl.
4. Sefydlu cyd-bwyllgor rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gyda phartneriaid perthnasol.
5. Parhau i wella'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd i bobl ledled y Sir.
6. Asesu'r trefniadau gofal preswyl yn ardal Llanelli i sicrhau bod llety priodol yn cael ei ddarparu yn yr ardal.
7. Cynnal darpariaeth fewnol gref a chynaliadwy yn y Cyngor ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl.
8. Atgyfnerthu ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith y defnyddwyr gwasanaeth.
9. Gweithio gyda phartneriaid yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a darparwyr y trydydd sector i sicrhau bod cymorth a gwasanaethau gofal iechyd meddwl priodol ar gael.
10. Darparu cymorth i ofalwyr, a gofalwyr ifanc yn benodol, i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gofal amhrisiadwy y maent yn ei gynnig i berthnasau a ffrindiau mewn angen.
11. Gweithio gyda phartneriaid i roi mwy o gyfleoedd i bobl agored i niwed a phobl hŷn i gymdeithasu er mwyn lleihau unigrwydd.
12. Parhau i gefnogi preswylwyr y mae dementia yn effeithio arnynt a chefnogi datblygiad cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia ar draws y Sir.
13. Paratoi at weithrediad Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).
14. Gweithredu strategaeth gadarn ar gyfer rheoli ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) newydd a hanesyddol yn llwyddiannus.
15. Cynyddu Taliadau Uniongyrchol a'r defnydd o gwmnïau cydweithredol dan gyfarwyddyd dinasyddion ar lefelau gweithredol, comisiynu a chontractio.
16. Datblygu dogfen gomisiynu strategol gyffredinol i dywys polisi ac arfer comisiynu.
17. Parhau i adolygu a monitro prosesau i sicrhau bod Adolygiadau ar gyfer cleientiaid yn cael eu cynnal yn flynyddol yn unol â'r gofynion rheoleiddiol.

### Plant

1. Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rôl Rhianta Corfforaethol trwy wneud yn siŵr bod ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt i gyflawni eu potensial llawn.
2. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn darparu'r gofynion allweddol o ran gofal plant a chwarae gan symud tuag at gyflwyno 30 awr o addysg a gofal am ddim i rieni sy'n gweithio.
3. Parhau i leihau nifer y plant sy'n Derbyn Gofal a nifer yr achosion gofal.
4. Parhau i geisio lleihau nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
5. Parhau i ddatblygu'r model "Signs of Safety" a'i ymgorffori'n ymarferol ym mhob tîm gwasanaethau plant.
6. Byddwn yn parhau i wella sefydlogrwydd lleoliadau yn unol â Chynllun Gweithredu Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin gyda golwg ar Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n symud lleoliad 3 gwaith neu fwy, a'n Strategaeth Recriwtio a Chadw Staff 2016-19
7. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig rhanbarthol yn ategu ein gwasanaethau lleol i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig.
8. Byddwn yn parhau i ddatblygu Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.